



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig:

Diogelu pobl hŷn yng
Nghymru



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Rhagair gan y Gweinidog

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion niweidiol, hollbresennol sy'n effeithio ar bob aelod o'n cymunedau. Gallant gael effaith niweidiol hirdymor a pharhaol ar y sawl sy'n eu profi ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, gallant arwain at anaf difrifol neu ladd rhywun.

Er y cydnabyddir yn eang y gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol effeithio ar unrhyw un mewn cymdeithas, a bod hynny'n digwydd, efallai nad yw profiad rhai grwpiau mor amlwg. Oni bai ein bod yn mynd ati i godi ymwybyddiaeth o brofiad y grwpiau hyn a'i ddeall, ni fyddwn yn llwyddo i amddiffyn y rheini sydd mewn perygl.

Mae pobl hŷn yn un grŵp o'r fath; ar gyfartaledd, mae dioddefwyr hŷn yn profi cam-drin domestig ddwywaith yn hirach cyn gofyn am help na'r rheini sydd o dan 61 oed, ac eto ni chânt eu cynrychioli'n ddigonol ymhlith gwasanaethau cam-drin domestig.¹ Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu llunio, mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, nid yn unig i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn ond hefyd i gynnig cyngor ymarferol ar sut i ddarparu gwasanaethau effeithiol i bobl hŷn ac, yn y pen draw, roi diwedd ar drais a cham-drin.

Weithiau drysir rhwng profi cam-drin domestig yn hwyrach mewn bywyd a "cham-drin pobl hŷn" (term sy'n cwmpasu pob math o drais, cam-drin ac esgeuluso a brofir gan bobl hŷn). Gall dryswch o'r fath olygu bod y rheini sy'n cael eu cam-drin yn cwmpo drwy'r rhwyd gan fethu â chael eu hamddiffyn gan y systemau a ddylai fod yn gwneud hynny.



Wrth i Lywodraeth Cymru weithio ar gyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac, yn arbennig, wella ac atgyfnerthu rôl ein Gwasanaeth Cyhoeddus wrth atal y materion hyn, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio i ddileu dryswch o'r fath ac, yn hytrach, yn sicrhau bod ein systemau a'n cydberthnasau gwaith yn cael eu hintegreiddio a bod gwybodaeth a sgiliau ein cyflogeion yn helpu i nodi cam-drin posibl a darparu cymorth effeithiol sydd wedi'i deilwra cyn gynted â phosibl.

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod hyd yn oed yn fwy niweidiol i ddioddefwyr pan fyddant yn cydfynd ag anghenion cymhleth neu sefyllfaoedd bregus eraill. Er nad yw'n gywir categoreiddio pobl hŷn fel pobl "agored i niwed" neu "fregus", mae'n bwysig ein bod ni, fel Gwasanaeth Cyhoeddus, yn barod i gynnig amrywiaeth o gymorth sy'n ymdrin â'r holl faterion a all wynebu rhywun hŷn sy'n profi trais a cham-drin.

Gobeithio y bydd y canllaw arfer da hwn yn rhywfaint o help i wneud hynny.

Carl Sargeant AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

¹ Safelives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse.

Rhagair Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Rwy'n falch o fod wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r ddogfen hon, a fydd yn darparu canllawiau hawdd i'w defnyddio i weithwyr rheng flaen proffesiynol ar sut i adnabod, ymateb a darparu cymorth mewn achosion o gam-drin a ddatgelir.

Rwyf am i Gymru fod yn lle da i dyfu'n hŷn, nid i rai yn unig ond i bawb. Fel y llais annibynnol ac eiriolwr dros bobl hŷn ledled Cymru rwyf am sicrhau bod gan bobl hŷn lais a glywir fel bod ganddynt ddewis a rheolaeth.

Mae diogelu pobl hŷn yn hanfodol er mwyn diogelu eu hawl i fywyd a'u hawl i fyw yn rhydd rhag triniaeth annynol neu ddiraddiol, yn ogystal â'u hawliau i breifatrwydd, i fywyd teuluol ac i wneud eu penderfyniadau eu hunain yn rhydd rhag gorfodaeth neu ddylanwad gormodol.



Dangoswyd mai dull cymunedol cydgysylltiedig oedd yr ymateb mwyaf effeithiol wrth fynd i'r afael â'r broblem hon. Gallai eich camau cadarnhaol helpu i achub bywyd neu roi terfyn ar unrhyw gam-drin parhaus.

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cynnwys

1. Nodyn ar iaith	5
2. Cyflwyniad	7
3. Nodweddion cam-drin domestig a brofir gan bobl hŷn	8
4. Ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi	11
5. Profiadau pobl hŷn o gam-drin domestig	13
Agweddau oedraniaethol	13
Ofn y bydd datgelu yn dwysáu'r cam-drin	13
Syniadau am breifatrwydd ynghylch y cartref a chydberthnasau agos	14
Teyrngarwch i'r person sy'n defnyddio trais a chamdriniaeth	14
Byw mewn cartref treisgar	14
Annibyniaeth a hunan-barch	14
Hyder mewn gwasanaethau	15
Bod yn agored i niwed a stigma	15
Anabledd (gan gynnwys nam ar y synhwyrau)	15
Dementia	16
Niwed anfwriadol	17
Pobl hŷn o Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	18
Pobl hŷn sy'n Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol	18
Pobl Draws	19
Y rhai sy'n gofalu ac sy'n cael eu cam-drin	20
6. Darparu ymateb effeithiol i bobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig	22
Nodi achosion o gam-drin	26
"Gofyn a Gweithredu"	26
Cymhwyso "Gofyn a Gweithredu" gyda phobl hŷn	26
Gwneud asesiad o risg ac angen	29
Penderfyniadau annoeth a phenderfyniadau a wneir dan orfodaeth	29
Anghenion gofal a chymorth	30
Nodi risg mewn perthynas â cham-drin domestig	30
Defnyddio Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg gyda phobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig	31
Rheol optimistiaeth	35

7. Y rhai sy'n cam-drin pobl hŷn	36
8. Opsiynau atgyfeirio a chysoni prosesau diogelu sy'n gorgyffwrdd	39
Caniatâd	39
Oedolyn sy'n wynebu risg	40
Cysoni prosesau diogelu	41
9. Anghenion cymorth a chynllunio mewn perthynas â thrais a cham-drin	44
Opsiynau cyfiawnder troseddol	44
Opsiynau cyfiawnder sifil	44
Gwasanaethau arbenigol	44
Cynghorwyr annibynnol ar drais domestig	45
Lloches	45
Tai dros dro â chymorth	46
Cymorth yn y gymuned – allgymorth/cymorth fel y bo'r angen	46
Gwasanaethau siop un stop cam-drin domestig	46
Llety	46
Y gydberthynas gofal	47
10. Cyffredinrwydd	49
11. Deddfwriaeth berthnasol	52
12. Rhestr termau a diffiniadau	56

1 Nodyn ar iaith

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiad o gam-drin domestig gan bobl hŷn. Ceir rhestr lawn o'r diffiniadau yn Atodiad 1. Mae'r adran hon yn nodi'n fras y prif dermau a ddefnyddir yn y canllawiau.

Pobl hŷn

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cytuno mai 60+ oed yw'r oedran y gellir ei ddynodi'n henaint fel arfer. Dyma'r ymgais cyntaf i lunio diffiniad rhyngwladol o henaint. Mae Sefydliad Iechyd y Byd hefyd wedi cytuno i ddilyn arweiniad y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u targedu'n bennaf at bobl 60 oed a throsodd er mwyn bod yn gyson â'r diffiniad rhyngwladol hwn. Fodd bynnag, dylai'r canllawiau hyn gael eu hystyried, waeth beth fo oedran y dioddefwr, os yw'n rhannu nodweddion y byddai'n rhesymol disgwyl eu gweld mewn rhywun sy'n 60 oed neu'n hŷn. Yn yr un modd, bydd yn berthnasol mewn pob achos lle mae ystyriaethau tebyg, fel y'u nodir yma mewn perthynas â phobl hŷn, yn bresennol. Er enghraifft, os mai un o brif bryderon sy'n ymwneud â phrofiad rhywun hŷn o drais a chamdriniaeth yw eu heiddilwch ychwanegol (er na fydd hyn yn wir ym mhob achos) gall y canllawiau hefyd fod yn berthnasol i ddioddefwyr o dan 60 oed ond sydd hefyd yn eiddil.

Dioddefwr

Defnyddir y term 'dioddefwr' yn y canllawiau hyn i adlewyrchu'r profiad a'r natur agored i niwed sy'n gysylltiedig â'r trais, y cam-drin a'r esgeulustod a drafodir yn y ddogfen. Efallai yr hoffai gweithwyr proffesiynol ddefnyddio iaith amgen fel 'goroeswr' neu 'gleient'. Ym mhob achos mae'n briodol gofyn i gleient pa iaith a fyddai'n well ganddo neu ganddi.

Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriadau yn y canllawiau hyn at 'drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol' yn cwmpasu pob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'i diffinnir yn adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Gofalwr

Mae'r term 'gofalwr' a ddefnyddir yn y canllawiau hyn yn cyfeirio at ofalwr sy'n aelod o'r teulu sydd â chyfrifoldebau gofalu (e.e. gan gynnwys partner).

Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Domestig Arbenigol Lleol

Gall y gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a ddarperir amrywio ledled Cymru. Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys rhestr o'r gwasanaethau hynny oherwydd cydnabyddir y gall tirwedd y gwasanaethau hynny newid dros amser. Efallai na fydd rhai gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r gwasanaeth cymorth mwyaf addas i gysylltu ag ef. Gall llinell gymorth 24 awr 'Byw Heb Ofn' ddarparu cyngor a rhoi manylion gwasanaethau cymorth lleol priodol.

Llinell gymorth Byw Heb Ofn – 0808 80 10 800

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu llinell gymorth genedlaethol, saith diwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd i'r rhai sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol a ffurfiau eraill ar drais yn erbyn menywod a thrais ar sail rhywedd.

Mae'r llinell gymorth yn wasanaeth gwybodaeth a chymorth ar sail rhywedd i fenywod, dynion, plant a gweithwyr proffesiynol sydd am wybod mwy am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr yng Nghymru.

Mae'r llinell yn wasanaeth cyfrinachol, dwyieithog. Gellir galw'r rhif am ddim o linellau tir a'r rhan fwyaf o ffonau symudol. Gellir darparu cyfleuster cyfieithu trwy linell iaith hefyd i'r galwyr hynny nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

2 Cyflwyniad

Diben y canllaw hwn yw galluogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys staff gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cartref, meddygon, nyrsys, swyddogion tai, yr heddlu ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n dod i gysylltiad â phobl hŷn) i weithio'n fwy effeithiol gyda phobl hŷn sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig.¹ Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gydag asiantaethau partner sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phobl hŷn waeth beth fo'u hanghenion gofal a chymorth ychwanegol, neu p'un a yw eu hamgylchiadau yn eu gwneud yn agored i niwed.

Bwriedir i'r canllawiau arfer da hyn feithrin gwell dealltwriaeth o brofiad pobl hŷn o gam-drin domestig ac, yn arbennig:

- cynnig cyngor ymarferol i staff a rheolwyr er mwyn sicrhau bod pobl hŷn sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r cyngor gorau sydd ar gael;
- gwella cydnabyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o gyd-destun cam-drin pobl hŷn a'r ymatebion dilynol y dylid eu hystyried;
- cyfrannu at wybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol fel y gallant fynd i'r afael â chymhlethdodau gweithio gyda phobl hŷn sydd angen gofal a chymorth o ganlyniad i gam-drin domestig, ond sydd angen gweithwyr proffesiynol hefyd i ymateb i'w hanghenion gofal a chymorth eraill.

¹ Er bod y canllawiau wedi'u targedu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn, gall cryn dipyn o'r ddogfen fod yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag unrhyw grŵp oedran, gan fod yr egwyddorion dan sylw yn arfer da cyffredinol.

3 Nodweddion cam-drin domestig a brofir gan bobl hŷn

Mae pob math o gam-drin domestig yn cael effaith ddwys ar y rhai sy'n ei brofi. Gall arwain at ganlyniadau byrdymor a hirdymor i iechyd meddwl a lles yr unigolyn, risg gynyddol o anaf corfforol ac, mewn rhai achosion, farwolaeth. Gall canlyniadau cam-drin arwain at ddigartrefedd, ynysu ac allgáu cymdeithasol hirdymor.

Gall y cam-drin a brofir gan bobl hŷn, fel gydag eraill, amrywio o gam-drin emosiynol, i gam-drin ac esgeulustod corfforol, rhywiol, ariannol, a seicolegol. Bydd llawer o ddioddefwyr yn aml yn profi cyfuniad o'r ymddygiadau hyn. O blith yr holl droseddau treisgar, cam-drin domestig sydd â'r gyfradd uchaf o erledigaeth dro ar ôl tro.²


Mae tystiolaeth o achosion troseddol, Adolygiadau o Ddyladdiad Domestig ac Adolygiadau hanesyddol o Achosion Difrifol na chaiff materion cam-drin domestig pobl hŷn eu cydnabod yn aml, sy'n golygu na chaiff mesurau amddiffynnol neu gefnogol a allai fod wedi lleihau'r risg o niwed eu rhoi ar waith.

"Older people may also be particularly affected by what may be perceived as 'low level' individual incidents which can, as part of a longstanding pattern of cumulative abusive behaviour, have consequences that can equal or surpass any individual incident".³

² Y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2002.

³ Safelives (2016) Older people and domestic abuse – completing the jigsaw: Practice blog. www.safelives.org.uk/practice_blog/older-people-and-domestic-abuse-completing-jigsaw

Mae Olwyn Duluth (isod) yn amlygu'r strategaethau niferus y bydd camdrinwyr yn eu defnyddio i reoli dioddefwyr sy'n cael eu cam-drin. Mae'n ddarlun eglurhaol defnyddiol o ddynameg gyffredin cydberthnasau camdriniol.



Yn aml, cyfeirir at gam-drin domestig, fel cam-drin plant, fel niwed 'cudd' am fod dioddefwyr yn aml yn ofni rhoi gwybod am y cam-drin oherwydd yr hyn y gallai achosi i'w camdriniwr ei wneud. Bydd y rhai sy'n eu cam-drin yn ceisio mynnu cael rheolaeth eto dros eu dioddefwyr os dônt yn ymwybodol o newid mewn ymddygiad. Mae dioddefwyr yn aml yn aros mewn cydberthynas am eu bod yn ofni'r hyn y gall y sawl sy'n eu cam-drin ei wneud iddynt hwy neu i aelodau eraill o'r teulu pe baent yn ceisio gadael. Mae llawer o ddiodesfwr sy'n cael eu cam-drin hefyd yn teimlo rhyddhad ar yr adegau pan fo'r cam-drin yn gostegu ac yn gobeithio y bydd eu hamgylchiadau yn gwella ac y daw'r patrwm o gam-drin i ben. Mae'r risg o farwolaeth ar ei mwyaf pan fydd y diodesfwr yn ceisio gadael yr un sy'n eu cam-drin⁴ ac am gyfnod ar ôl gwahanu.

Mae'r profiad o gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn yn amrywio; bydd rhai wedi cael eu cam-drin gan eu partner ers sawl blwyddyn. Gall eraill brofi cam-drin mewn perthynas newydd sydd wedi dechrau yn hwyrach mewn bywyd. Efallai eu bod yn cael eu cam-drin gan aelod o'r teulu ac, i rai, byddant wedi dechrau cael eu cam-drin ar ôl tyfu'n hŷn a/neu'n eiddil neu â nam gwybyddol.

Fel gyda mathau eraill o gam-drin domestig, gall trais a chamdriniaeth a brofir gan bobl hŷn gynnwys rheolaeth orfodol dros rywun ac mae'n aml yn cynnwys hyn.

⁴ Campbell, J. C., Webster, D., Koziol-McLain, J., Block, C., Campbell, D., Curry, M. A., ... & Laughon, K. (2003). Risk factors for femicide in abusive relationships: Results from a multisite case control study. *American journal of public health, 93*(7), 1089-1097.

4 Ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi

Pan fo cysylltiad personol rhwng dau barti, mae ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn drosedd (adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015). Gall fod ar sawl ffurf ond mae'n aml yn cynnwys patrwm o gam-drin parhaus a mynych. Gall cam-drin o'r fath ymddangos yn weithred arferol neu "lefel isel" i bobl o'r tu allan ond bydd ei arwyddocâd cudd i'r dioddefwr yn aml yn achosi pryder ac ofn. Gall hefyd greu amgylchedd lle mae'r dioddefwr yn derbyn bod yr ymddygiad cynyddol niweidiol yn normal.

Gall camdrinwyr fod yn greadigol yn y ffordd y maent yn rheoli, yn cam-drin neu'n bychanu eu partneriaid a hefyd o ran y canlyniadau sy'n deillio o anufuddhau. Dylai staff sy'n delio â digwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig fod yn effro i batrymau ymddygiad a allai fod yn ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Fel arfer mae rheolaeth orfodol yn bersonol, yn yr ystyr ei bod yn golygu rhywbeth i'r dioddefwr hyd yn oed pan na fydd yr ystyr yn amlwg i unrhyw un arall. Gall nodweddion unigol fel anabledd, aelodaeth o gymuned gaeedig neu ymylol, neu o fod yn rhywun nad yw'n siarad Saesneg, gynyddu'r risg o wneud i ddiodesfwr deimlo'n ynysig a'i gwneud yn haws i'r cyflawnwr sefydlu ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Mae enghreifftiau o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:⁵

- beirniadaeth gyson;
- bychanu;
- ymddygiad cenfigennus neu feddiannol, e.e. galwadau ffôn mynych i gadarnhau ble mae'r dioddefwr a beth mae'n ei wneud, neu edrych ar weithgarwch y dioddefwr o ran ei ffôn neu ei gyfrif e-bost;
- bygwth hunanladdiad/dynladdiad/neu ladd aelodau o'r teulu;
- bygythiadau neu hunan-niwed gwirioneddol;
- bygwth niweidio anifeiliaid anwes;
- rheoli arian y teulu, atal neu gyfyngu ar allu'r dioddefwr i gael gafael ar arian;
- ynysu'r dioddefwr drwy beidio â chaniatáu iddo ymweld â ffrindiau a theulu neu i'r teulu neu ffrindiau ymweld ag ef;
- cyfyngu ar symudiadau dioddefwr, e.e. eu cadw mewn ystafell, a gorfod rhoi cyfrif am eu hamser;
- dweud wrth ddiodesfwyr beth i'w wisgo neu sut i wneud eu gwallt;
- dweud wrth ddiodesfwyr beth yw'r drefn neu'r amserlen, e.e. amseru teithiau siopa;
- atal cyfathrebu, e.e. llythyrau, negeseuon neu alwadau ffôn.

Mae cydnabod ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli fel rhan o gamdriniaeth ddomestig pobl hŷn yn bwysig iawn. Os nad ystyrir ymddygiad sy'n gorfodi gallai arwain at fethu cyfle i adnabod achosion o gam-drin a thrais.

⁵ Noder na fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr ond mae'n dangos enghreifftiau cyffredin o ymddygiad sy'n gorfodi.

Fodd bynnag, er y gall rhai cyflawnwyr orfodi a gweithredu'n fwriadol, gall eraill fod yn ymateb i amgylchiadau lle na allant ymdopi â lefel y gofal sydd ei hangen ar y dioddefwr. Hefyd, gall fod rheswm clinigol dros y cam-drin; er enghraifft, dementia. Ceir llai o ddefnydd o dechnegau rheoli a gorfodi efallai os yw'r ymddygiad treisgar o ganlyniad i esgeulustod anfwriadol neu'r straen sefyllfaol emosiynol a brofir gan y gofalwr.



Astudiaeth achos: Ymddygiad sy'n gorfodi

Cyfarfu Anne (76 oed) â Jack (77 oed) ddeugain mlynedd yn ôl. Mae Jack wedi bod yn ei cham-drin yn gorfforol ac yn emosiynol am y rhan fwyaf o'u hamser gyda'i gilydd ac, am ychydig flynyddoedd, bu mam Jack yn cam-drin Anne hefyd. Ar ôl i fam Jack farw, gwaethygodd trais corfforol ac ymddygiad rheoli Jack a dechreuodd fychanu Anne o flaen ei theulu a'i ffrindiau.

Dechreuodd Jack berthynas â menyw arall a byddai'n dod â'i bartner newydd i'r aelwyd, gan wawdio Anne a'i hel i'w hystafell wely tra bod ei bartner newydd yno. Ni fyddai Anne yn cael defnyddio unrhyw ystafell arall yn y tŷ, gan gynnwys y gegin.

Ar un achlysur, pan geisiodd Anne ddefnyddio'r gegin, safodd Jack drosti nes iddi deimlo cymaint o ofn y bu'n rhaid iddi adael a dychwelyd i'w hystafell wely heb fwyd. Roedd gormod o ofn ar Anne ddefnyddio'r gegin o gwbl wedyn a dechreuodd gadw byrbrydau yn ei hystafell wely. Y byrbrydau hyn oedd ei phrif ffynhonnell maeth, gan arwain at ddirywiad yn ei hiechyd corfforol.

Gwaethygodd ymddygiad rheoli Jack i'r fath raddau fel y cafodd Anne ei charcharu yn ei hystafell am gyfnodau hir o amser. Digwyddodd hyn yn aml ac ni fyddai'n cael gweld ei theulu na'i hwyrion pan fyddent yn galw.

Yn y diwedd aeth Anne i'w Chanolfan Cyngor ar Bopeth leol a datgelodd ei phrofiad. Fe'i rhoddwyd mewn cysylltiad â'i gwasanaeth cymorth lleol a roddodd gymorth iddi a'i helpu i ddeall y risgiau roedd yn eu hwynebu gartref.

Cafodd gymorth yn y gymuned am sawl mis cyn symud i loches. Nid oedd Anne yn barod i wneud hyn ar y dechrau gan nad oedd yn siŵr a allai menyw o'i hoedran hi fynd i loches neu a oedd y rhain ar gyfer merched ifanc â phlant yn unig.

Cymerodd ychydig o amser i Anne ymgartrefu ond cymerodd ran mewn sesiynau cymorth a rhaglen grŵp. Yn raddol mae wedi addasu i fywyd heb fod dan reolaeth Jack ac mae wedi cael ei hyder a'i hunan-barch yn ôl.

Mae Anne bellach yn byw'n annibynnol ac yn cael cymorth parhaus gan Cymorth i Ferched.

5 Profiadau pobl hŷn o gam-drin domestig

Nid yw pobl hŷn yn grŵp homogenaidd, ac yn unigol bydd profiad pob un yn wahanol. Er y dylid osgoi stereoteipio pobl hŷn, mae profiad yn dangos bod rhai pobl hŷn yn teimlo nad yw mor hawdd iddynt o bosibl gael gafael ar wasanaethau; gallant fod yn llai ymwybodol na phobl iau o'r gwasanaethau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt; neu gallant gredu mai dim ond ar gyfer pobl iau, neu bobl â phlant ifanc y mae gwasanaethau ar gael.

Mae pobl hŷn heb unrhyw addysg ffurfiol nac adnoddau economaidd yn debygol hefyd o fod yn fwy agored i niwed yn economaidd ac yn fwy tebygol o fod yn ddibynnol yn ariannol ar eu camdriniwr na phobl iau. Efallai eu bod wedi dioddef camdriniaeth am flynyddoedd lawer mewn cydberthynas hirsefydlog, wedi normaleiddio'r ymddygiad hwn neu'n teimlo cywilydd neu embaras ar ôl blynyddoedd o gael eu cam-drin heb unrhyw sôn am gwyno.

Gall fod yn anodd iawn i rai pobl hŷn dderbyn help – efallai y bydd angen mwy o amser arnynt, mwy o sicrwydd a mwy o hyder o ran yr hyn a allai ddigwydd a'r gwasanaethau sydd ar gael, cyn iddynt ddatgelu camdriniaeth a derbyn help i symud ymlaen.

Agweddau Oedraniaethol

Gall agweddau oedraniaethol at bobl hŷn gyfrannu at sefyllfa lle na chaiff cam-drin domestig ymhlith pobl hŷn ei nodi'n gywir gan weithwyr proffesiynol. Gall methu â chydabod ac ymateb yn effeithiol i gam-drin domestig mewn person hŷn arwain at atgyfeiriadau amhriodol a chanlyniadau anniogel o bosibl.⁶ Mae'n bwysig nad yw ymarferwyr yn stereoteipio nac yn barnu ar gam mewn perthynas â phobl hŷn a'u bod yn ystyried profiadau posibl pobl hŷn mewn ffyrdd tryloyw ac agored.

Ofn y bydd datgelu yn dwysáu'r cam-drin⁷

Er bod hyn yn rhwystr cyffredinol i bob un sy'n cael ei gam-drin, mae pobl hŷn yn aml yn fwy dibynnol yn emosiynol, yn ariannol ac yn gorfforol ar y camdriniwr/camdrinwyr na phobl iau mewn sefyllfa gyfatebol oherwydd problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran. Un o ganlyniadau'r ddibyniaeth hon yw y bydd pobl hŷn yn amharod i roi gwybod eu bod yn cael eu cam-drin am fod ofn y cânt eu rhoi mewn cartref gofal. Gall hyn hefyd ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddatgelu am eu profiad a'r tebygolrwydd y gwnânt leihau'r profiad.^{8 9}

Nododd astudiaeth a gynhaliwyd yn 2007¹⁰ gyda 134 o ddioddefwyr hŷn a chynrychiolwyr pobl hŷn, fod y rhan fwyaf o'r menywod ofn na fyddent yn cael ymateb cefnogol pe baent yn trafod eu camdriniaeth gydag aelodau o'u teulu.

⁶ Wydall, S., Zerk, R., Newman, J. 2015. Troseddau yn erbyn, a cham-drin, pobl hŷn yng Nghymru: Cael cymorth a chyfiawnder: cydweithio. Adroddiad a gyflwynwyd i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ar gael ar-lein yn: www.bit.ly/1GWvw5A,

⁷ Cymorth i Fenywod (2007) *Older women and domestic violence: An overview of the literature*.

⁸ Zerk, R. (2015) 'papur a gyflwynwyd yn y XXXVIII Cynghrair Ryngwladol ar y Gyfraith ac Iechyd Meddwl, Fiena, 15fed Gorffennaf 2015.

⁹ Scott, M., McKie, L., Morton, S., Seddon, W., Wosoff, F. (2004) Cynhyrchwyd ar gyfer lechyd yn yr Alban gan y Ganolfan Ymchwil i Deuluoedd a Chydberthnasau (Caeredin: Health Scotland).

¹⁰ Beaulaurier, R., Seff, L., Newman, F., Dunlop, B. (2007) External barriers to help seeking for older women who experience intimate partner violence, *Journal of Family Violence*, 22 (8), 747-755.

Syniadau am breifatrwydd ynghylch y cartref a chydberthnasau agos¹¹

Nid yw pobl hŷn, yn fwy felly na phobl iau mewn sefyllfa gyfatebol, am gynnwys asiantaethau yn eu materion preifat oherwydd y cywilydd sy'n gysylltiedig â chael eu cam-drin gan aelod o'r teulu a diffyg hawl ganfyddedig i gael help. Fel gyda phob dioddefwr posibl, gall pobl hŷn deimlo'n fwy hyderus i ddatgelu cam-drin wrth i'w cydberthynas ag ymarferydd ddatblygu ac wrth iddynt ddod yn fwy ffyddiog.

Teyrngarwch i'r person sy'n defnyddio trais a chamdriniaeth

Canfu astudiaeth yn 2006¹² fod amharoddrwydd menywod hŷn i ddatgelu i'w meddyg teulu neu i weithwyr proffesiynol eraill eu bod yn cael eu cam-drin yn ymwneud â chanfyddiadau o deyrngarwch, yn enwedig os oedd y camdriniwr neu'r dioddefwr yn ofalwr oedd yn aelod o'r teulu.

At hynny, mae astudiaethau eraill wedi dangos y gall teuluoedd dioddefwyr hŷn cam-drin domestig wadu bod y cam-drin yn digwydd, beio'r dioddefwr neu fod yn wrthwynebus i'r syniad o "chwalu'r teulu".¹³ Mae astudiaethau pellach wedi nodi nad oes gan ddiodesfwyr hyder o bosibl mewn systemau cymorth anffurfiol neu ffurfiol i ddeall y ddynnameg gymhleth o ran cydberthnasau rhyngddynt hwy a'r cyflawnwr.¹⁴

Byw mewn cartref treisgar

Efallai na fydd person hŷn yn cael ei gam-drin yn uniongyrchol ond yn cael ei amlygu iddo yn ei amgylchedd teuluol, er enghraifft, pobl hŷn sy'n byw mewn cartref teuluol lle mae un aelod o'r teulu yn dioddef fwyaf, neu'n lle mae'n cael ei dargedu gan gyflawnwr sy'n cam-drin aelod o'i deulu. Mae'n bwysig cydnabod y gall amlygiad o'r fath i gamdriniaeth achosi niwed byrdymor a hirdymor neu hyd yn oed farwolaeth. Mae hefyd yn ein hatgoffa am rywbeth pwysig, sef mai ymagwedd teulu cyfan yw'r un orau i weithwyr proffesiynol ei mabwysiadu er mwyn diwallu anghenion pob aelod o'r teulu, gan gynnwys y rhai ag anghenion gofal.

Annibyniaeth a hunan-barch

Er bod colli annibyniaeth a hunan-barch isel yn effeithio ar lawer o bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig, efallai y bydd pobl ag anghenion gofal a chymorth a gaiff eu gorfodi a'u rheoli gan ofalwyr neu aelodau o'r teulu yn ei chael hi'n fwy anodd cydnabod mai achos o gam-drin yw eu profiad hwy.

Maent yn fwy tebygol o feio eu hunain neu eu hanghenion am y gamdriniaeth. Efallai eu bod yn ofni colli annibyniaeth y brwydrwyd yn galed amdani; neu'n ofni colli balchder ac yn ofni methu â rheoli eu cyflwr.

¹¹ Yan, E., Chan, K. L., & Tiwari, A. (2015). A systematic review of prevalence and risk factors for elder abuse in Asia. *Trauma, Violence, & Abuse, 16*(2), 199-219.

¹² Wong, S., Jonge, A.D., Wester, F., Mol, S.S.L., Romkens, R.R., Lagro-Janssen, T. (2006) Discussing partner abuse: Does doctor's gender really matter? *Family Practice, 23*(5), 578-586.

¹³ Yan, E., Chan, K. L., & Tiwari, A. (2015). A systematic review of prevalence and risk factors for elder abuse in Asia. *Trauma, Violence, & Abuse, 16*(2), 199-219.

¹⁴ Fugate, M., Landis, L., Riordan, K., et al. (2005). Barriers to domestic violence help seeking. *Violence against Women, 11*(3), 290-310.

Hefyd, gall pobl sy'n ddibynnol ar becynnau gofal neu gynorthwyr personol deimlo bod eu hopsiynau hyd yn oed yn fwy cyfyngedig, gan ofni y bydd yn amhosibl mynd â'r gwasanaethau gyda hwy os gwnânt adael cydberthynas a/neu symud ardal.

Hyder mewn gwasanaethau

Bydd gan rai pobl hŷn gydberthnasau da ac ymddiriedus â gweithwyr proffesiynol a all eu helpu i gofnodi a delio â cham-drin domestig. Fodd bynnag, efallai na fydd eraill yn ymddiried mewn asiantaethau i ymateb yn effeithiol neu byddant yn ofni colli mwy o annibyniaeth neu newid. Efallai y bydd angen mwy o amser ar bobl hŷn sydd â'r pryderon hyn a bydd angen iddynt feithrin ymddiriedaeth a hyder. Bydd angen dangos hefyd mewn modd cadarnhaol y cânt eu cefnogi cyn iddynt ddatgelu rhywbeth i weithwyr proffesiynol, a mynd ymlaen i ystyried eu hopsiynau.

Bod yn agored i niwed a stigma

Gyda stereoteipio ar sail oedran, gwelir pobl hŷn yn aml fel rhai sydd wedi'u hanafu, sy'n anhapus, yn isel eu hysbryd neu ag anawsterau eraill, oherwydd iechyd neu anghenion gofal cymdeithasol. Wrth ddefnyddio dull cyfannol, dylai gweithwyr proffesiynol gymryd gofal mawr i asesu pobl hŷn mewn ffordd sy'n osgoi llunio barn yn seiliedig ar eu disgwyliadau eu hunain o anghenion pobl hŷn a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Gall pobl hŷn fod yn fwy agored i niwed corfforol, yn fwy ynysig yn gymdeithasol ac yn teimlo na allent ddianc i'r un graddau ag y gallai pobl iau ei wneud. Hefyd, gall y camdriniwr fod yno drwy'r amser.

Lle mae person hŷn wedi dod i gysylltiad agos â gweithwyr proffesiynol oherwydd ffactorau ychwanegol sy'n ei wneud yn agored i niwed, os nad yw wedi datgelu'r cam-drin (am na ofynnwyd iddo, am nad oedd yn barod i ddweud neu am fod y cam-drin wedi gwaethygu) gall fod â gormod o gywilydd i godi'r pwnc yn awr. Os oes rhywun wedi cael ei gam-drin ar hyd ei fywyd, gall deimlo stigma neu gywilydd ei fod wedi cadw'r peth yn gyfrinach cyhyd.

Anabledd (gan gynnwys nam ar y synhwyrau)

Mae anabledd sy'n gysylltiedig â heneiddio yn gyffredin. Gall anabledd ddigwydd o ganlyniad i gam-drin domestig ac i'r rhai sy'n eiddil; gall dirywiad corfforol a meddyliol sylweddol ddeillio o ddigwyddiadau lefel isel yn ôl pob golwg.

Gwyddys hefyd fod anabledd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn cael ei gam-drin. Mae menywod anabl ddwywaith mor debygol o brofi trais a cham-drin rhywiol na menywod nad ydynt yn anabl.¹⁵

Mae bod yn anabl yn effeithio ar natur, graddau ac effaith y cam-drin yn sylweddol. Yn aml manteisir ar namau pobl hŷn fel rhan o'r cam-drin.

Bydd rhai mathau o gam-drin yn canolbwyntio'n benodol ar y nam ac yn ei waethygu'n fwriadol. Gall y cam-drin gynnwys camddefnyddio meddyginiaeth a ragnodwyd hefyd.

Mae llawer o gamdrinwyr yn fwriadol yn pwysleisio ac yn atgyfnerthu dibyniaeth fel ffordd o fynnu a chynnal rheolaeth. Mae effaith cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn arbennig o wael os mai'r partner sy'n cam-drin yw'r prif ofalwr hefyd; a bydd gan y gofalwr gryn bŵer a rheolaeth dros y dioddefwr a bydd y dioddefwr yn llwyr ddibynnol arno.

Gall pobl hŷn anabl fod yn amharod i adael eu cartref eu hunain os yw wedi cael ei addasu ar eu cyfer. Byddant hefyd yn ofni y cânt eu gorfodi i fynd i gartref hen bobl os gadawant gartref wedi'i addasu a'r gofalwr sy'n eu cam-drin. Ni ddylid byth roi pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth mewn sefydliadau preswyl fel ateb i gam-drin domestig (onid dyna yw eu dymuniad). Rhaid i unrhyw benderfyniad ynghylch cartrefu rhywun gadw at y fframwaith deddfwriaethol perthnasol.

Dementia

Mae pobl hŷn â dementia yn wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin am fod llai o allu ganddynt i ofyn am help, dadlau drostynt hwy eu hunain neu adael sefyllfaoedd camdriniol o bosibl.

Mae Cymdeithas Alzheimer yn amcangyfrif bod tua 44,000 o bobl yng Nghymru y canfuwyd ac na chanfuwyd bod ganddynt ddementia.¹⁶ Mae cyfran sylweddol o'r bobl hyn yn byw yn y gymuned lle y darperir gofal, ar y cyfan, gan ofalwyr teuluol.

Derbynnir yn gyffredinol y gall effaith dementia olygu bod modd camfanteisio'n haws ar bobl hŷn a gall y clefyd hefyd effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i ofyn am help, dadlau drostynt hwy eu hunain neu adael sefyllfaoedd camdriniol o bosibl. Atgyfnerthir y natur agored i niwed hon ymhellach gan y nam gwybyddol, iselder, anawsterau ymddygiadol, ynysu cymdeithasol a dibyniaeth sy'n gysylltiedig â dementia.

Mewn rhai achosion, ni fydd gofalwyr teuluol pobl hŷn â dementia yn ymwybodol o bosibl bod yr hyn a wnânt yn gyfystyr â cham-drin. Mae ymchwil yn dangos y bydd nifer fawr o'r bobl hynny sydd â dementia yn cael eu cam-drin yn gorfforol gan y gofalwr teuluol a bod hyn, mewn llawer o'r achosion, yn gysylltiedig â methiant i ymdopi â sefyllfa anodd a heriol.

Er bod angen i weithwyr proffesiynol gofio y gall rhai o'r sefyllfaoedd hyn arwain at ganlyniadau trasig, gan gynnwys marwolaeth, y ffordd orau o ymdrin ag achosion o'r fath fel arfer yw drwy brosesau ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg. Gall adnabod arwyddion yn gynnar, ymyrryd a chymorth priodol fod yn effeithiol o ran lleihau'r risg o niwed ac atal trasiedi rhag digwydd.

¹⁶ Wales Dementia Diagnosis (2013-14).

Lle y darperir gofal gan ofalwr teuluol bydd y risg hon yn cynyddu o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae gan y gofalwr ei hun anghenion sydd heb eu diwallu neu heb eu cydnabod;
- mae'r gofalwr ei hun yn agored i niwed;
- nid oes gan y gofalwr fawr ddim dealltwriaeth o gyflwr nac anghenion y person sy'n agored i niwed;
- mae'r gofalwr wedi gorfod newid ei ffordd o fyw o'i anfodd;
- nid yw'r gofalwr yn cael cymorth ymarferol a/neu emosiynol gan aelodau eraill o'r teulu;
- mae'r gofalwr yn teimlo'n ynysig yn emosiynol ac yn gymdeithasol, nid yw'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac mae'n teimlo ei fod yn wynebu stigma;
- mae gan y gofalwr gyfrifoldebau eraill fel teulu neu waith;
- nid oes gan y gofalwr le na bywyd personol neu breifat y tu allan i'r amgylchedd gofalu;
- mae'r gofalwr wedi gofyn am help yn aml ond nid yw'r problemau wed cael eu datrys;
- mae'r gofalwr yn cael ei gam-drin gan y person sy'n agored i niwed;
- mae'r gofalwr yn teimlo nad yw'n cael ei werthfawrogi gan y person sy'n agored i niwed neu'n teimlo bod perthnasau neu wasanaethau yn cymryd mantais ohono.

Mae rhai o'r sefyllfaoedd sy'n golygu bod gofalwyr teuluol yn wynebu mwy o risg o niwed hefyd yn cynnwys ffactorau sy'n cynyddu'r risg y bydd gofalwyr teuluol eu hunain yn achosi niwed (e.e. taro'n ôl i dalu'r pwyth yn ôl, camddefnyddio meddyginiaeth gwrthseicotig, defnyddio dulliau rheoli nad ydynt yn ffisegol a allai beri niwed emosiynol).

At hynny, os nad yw gofalwr yn gwybod sut i ddiwallu anghenion person â dementia neu salwch arall neu lle mae'r risg yn codi o ganlyniad i ddiffyg sgiliau ymdopi neu anghenion nas diwallwyd, gellir achosi niwed yn anfwriadol.

Niwed anfwriadol

Lle mae'r risg o niwed yn anfwriadol, e.e. am nad yw gofalwr yn gwybod sut i ddiwallu anghenion person â dementia neu salwch arall neu lle mae'r risg yn codi o ganlyniad i ddiffyg sgiliau ymdopi neu anghenion nas diwallwyd, gall cynllunio diogelwch ganolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n galluogi'r gofalwr i ofalu'n effeithiol neu i eraill ddarparu gofal ar sail gofal seibiant neu ar sail fwy parhaol. Mae asesiad gofalwr yn adnodd defnyddiol i gyflawni hyn.

Gall atgyfeiriad at weithdrefnau diogelu oedolion fod yn ffordd ddefnyddiol o ddwyn gweithwyr proffesiynol ynghyd ar sail amlasiantaethol i sicrhau bod y person sy'n wynebu risg yn ddiogel ac yr ymdrinnir â'i anghenion ef ac anghenion ei ofalwr.¹⁷

Gall cam-drin anfwriadol achosi niwed drwy weithredu neu ddiffyg gweithredu. Gall gael effaith ddifrifol am yr Oedolyn sy'n Wynebu Risg ac ni ddylid ei anwybyddu.

Pobl hŷn o Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Gall pobl hŷn o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig deimlo cywilydd neu embaras yn arbennig yn sgil cael eu cam-drin gan eu partner. Gall anrhydedd y teulu gael dylanwad penodol ar benderfyniad rhywun o'r fath i beidio â cheisio cymorth.

Mae pobl hŷn o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig weithiau'n llai tebygol na phobl iau o siarad neu ddeall Saesneg, a all ei gwneud yn anodd iawn datgelu cam-drin lle nad oes gwasanaethau arbenigol ar gael. Ymhlith rhai o'r rhwystrau ychwanegol posibl i gofnodi a wynebir ganddynt mae'r canlynol:

- rhwystrau iaith;
- anrhydedd y teulu, gwarth a stigma;
- ofn y caiff cyfrinachedd ei dorri;
- hiliaeth, canfyddedig neu wirioneddol;
- credoau ac arferion diwylliannol;
- ofn gael eu gwrthod gan eu cymuned;
- ofn trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir.¹⁸

Yn ôl data o'r Uned Priodasau Dan Orfod, yn ystod 2016 roedd dioddefwyr priodasau dan orfod yn amrywio o fod yn blant bach i fod yn bobl dros eu hoedran ymdddeol. Roedd 2% o'r galwadau a gafodd yr uned gan bobl oedd yn 41 oed a throsodd. Nid oes dadansoddiad ar gael ar gyfer y rheini sydd dros 60 oed. Yn y nifer fach o achosion sy'n cynnwys dioddefwyr hŷn, gall y briodas dan orfod fod wedi digwydd sawl blwyddyn yn ôl neu lle'r oedd gan y dioddefwr anabledd dysgu.¹⁹

Pobl hŷn sy'n Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LGBT)

Mae pobl LGBT yn tueddu i dangofnodi achosion o drais a cham-drin. Prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â phobl LGBT hŷn ond credir mai rhai o'r rhwystrau ychwanegol sy'n atal pobl LGBT rhag cofnodi achosion yn gyffredinol yw:

- diffyg gwybodaeth neu gydnabyddiaeth ganfyddedig neu wirioneddol gan weithiwr proffesiynol o gam-drin yng nghyberthnasau pobl LGBT;
- diffyg gwybodaeth a chyswllt â gwasanaethau sy'n croesawu LGBT;
- profiad hanesyddol pobl hŷn o homoffobia a'r ffaith eu bod yn credu mai hyn yw'r peth arferol a bod bywydau rhywiol y bobl hynny wedi bod yn anghyfreithlon (dynion hoyw a deurywiol);

¹⁸ Darn wedi'i gymryd o (2015) LGA and ADASS, Adult Safeguarding and domestic abuse: A guide to support practitioners and managers. Second addition. P.20.

¹⁹ www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/597869/Forced_Marriage_Unit_statistics-_2016.pdf.

- diffyg sicrwydd ynghylch eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd a/neu eu gallu i fod yn agored ynglŷn â hyn i eraill;
- beio eu hunain mewn perthynas â'u profiad o gam-drin;
- wynebu tactegau rheoli gan y cyflawnwr sy'n canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol yr unigolion neu eu hunaniaeth o ran rhywedd, fel bygwth datgelu cyfeiriadedd rhywiol rhywun;
- pryder y gall eu cyfeiriadedd rhywiol gael ei ddatgelu'n ddamweiniol i eraill os byddant yn defnyddio gwasanaethau ac y gall hynny arwain at ffurfiau ar gam-drin, fel troseddau casineb neu gamdriniaeth homoffobig/deuffobig/trawsffobig gan bobl eraill yn eu cymuned;
- heterorywioldeb tybiedig o fewn y gwasanaethau a ddarperir – darpariaeth heteronormadol;
- canfyddiad o lefel annigonol o wybodaeth a sgiliau amrywiaeth proffesiynol;
- canfyddiad fod y darparwr gwasanaethau yn lleihau profiad pobl LGBT o gam-drin.²⁰

Pobl draws

- Gall y rheini sydd wrthi'n newid rhywedd deimlo'n negyddol am rannau penodol o'u corff, ac felly efallai na fyddant yn barod i droi at wasanaethau lle cânt archwiliad corfforol, fel gwasanaethau ymosodiadau rhywiol ffforensig.
- Gall camdrinwyr domestig ddefnyddio hunaniaeth rywiol i gam-drin partner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu a'u hannog i beidio â chael cymorth. Gall hyn gynnwys gwrthod rhoi arian am driniaeth hormonau neu ddillad fel na allant fyw fel y rhyw maent yn newid iddo. Gall hyn greu rhwystr go iawn a fyddai'n atal pobl draws rhag defnyddio gwasanaethau rhyw unigol (menywod yn unig neu ddynion yn unig).
- Gall pobl draws ofni neu brofi gwahaniaethu gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill os defnyddiant wasanaethau prif ffrwd.
- Gall pobl draws gredu nad oes unrhyw wasanaethau yn barod i'w helpu nac yn gallu eu helpu. Dylai staff gael hyfforddiant ar brofiadau unigryw ac anghenion penodol pobl draws sy'n profi cam-drin domestig.²¹
- O fewn cymunedau traws, mae trais rhywiol yn arbennig o "gudd" ac mae'n annhebygol o gael ei drafod.²²
- Gall pobl draws gael eu heithrio'n anghywir rhag defnyddio gwasanaethau oherwydd eu hanes rhywedd, er enghraifft ddim yn cael defnyddio gwasanaeth menywod yn unig am mai rhywedd gwrywaidd a neilltuwyd iddynt adeg eu geni.²³

²⁰ Harvey S (2014) Barriers faced by Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender People in Accessing Domestic Abuse, Stalking, Harassment and Sexual Violence Services, Llywodraeth Cymru.

²¹ Roch, A., Ritchie, G. & Morton, J. (2010) *Out of Sight, Out of Mind? Transgender People's Experiences of Domestic Abuse*. Edinburgh: LGBT Youth Scotland and Equality Network.

²² Donavon, C. & Hester, M. (2011), "Seeking help from the enemy: help-seeking strategies of those in same-sex relationships who have experienced domestic abuse", *Child and Family Law Quarterly*, 23(1), pp26-40.

²³ Gooch, B. (2012) *Shining the Light: 10 Keys to Becoming a Trans Positive Organisation*. Llundain: Galop.

Y rhai sy'n gofalu ac sy'n cael eu cam-drin

Gall sefyllfa godi lle mae rhywun hŷn yn gofalu am yr un sy'n cam-drin, a'i fod yn teimlo bod dyletswydd arno i barhau i ofalu amdano, er ei fod yn cael ei gam-drin ganddo.

Er y gall y sefyllfa hon godi oherwydd dymameg cam-drin domestig a ddeallir yn gyffredin ac y gallai'r cam-drin fod yn bodoli cyn i'r rôl gofalu ddechrau, mae ei debygolrwydd yn cynyddu yn yr achosion canlynol:

- pan fydd ganddo anghenion iechyd a gofal sy'n rhy gymhleth i'r gofalwr ac sy'n gofyn am gymorth hirdymor;
- pan nad yw'n ystyried anghenion y gofalwr nac aelodau'r teulu;
- pan fydd yn trin y gofalwr heb barch na chwarteisi;
- pan fydd yn gwrthod cymorth a chefnogaeth allanol, gan gynnwys seibiannau;
- pan fydd yn gwrthod cael ei adael ar ei ben ei hun yn ystod y dydd neu'r nos;
- pan fydd ganddo reolaeth dros adnoddau ariannol, eiddo a threfniadau byw;
- pan fydd yn cyfleu ymddygiad camdriniol, ymosodol neu frawychus;
- pan fydd ganddo hanes o gamddefnyddio sylweddau;
- pan y canfyddir bod ganddo ymddygiad anarferol neu dramgwyddus;
- pan na fydd yn deall ei weithredoedd na'i effaith ar y gofalwr;
- pan fydd yn ddig ynglŷn â'i sefyllfa ac yn ceisio cosbi eraill amdani;
- pan fydd wedi gofyn am help neu gymorth ond nad oedd yn cyrraedd y trothwyon;
- gwaethygir y sefyllfa ofalu gan effaith natur a graddau'r ynysu emosiynol a/neu gymdeithasol y gofalwr neu'r person sy'n cael cymorth.



Astudiaeth achos: Rhwystrau i ymgysylltu

Yn dilyn marwolaeth ei bartner hirdymor, cyfarfu Harvey (63 oed) â Greg (40 oed) mewn grŵp cymorth profedigaeth. Datblygodd eu cyfeillgarwch yn berthynas a arweiniodd at briodas sifil.

Ddiwrnod eu priodas, gwelodd Harvey Greg yn cusanu un o'i ffrindiau gwrywaidd. Pan gododd Harvey hyn gyda Greg yn breifat, collodd Greg ei dymer, gan feirniadu Harvey ac awgrymu ei fod yn rhywiol annigonol.

Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae Greg wedi beirniadu golwg Harvey fwyfwy, ac mae wedi dechrau gwawdio ei gredoau crefyddol a'i fychanu'n gyhoeddus. Mewn digwyddiadau cymdeithasol mae Greg yn bychanu Harvey am ei oedran ac yn ei ddiffrïo am ei berfformiad rhywiol. Mae Greg wedi bod yn anffyddlon gyda dynion eraill ac mae'n aros allan drwy'r nos. Yn aml, dim ond ychydig droeon yr wythnos y bydd yn dychwelyd i'w cartref priodasol.

Mae Harvey bob amser wedi teimlo mai ef sydd ar fai am ymddygiad Greg. Mae wedi newid ei ymddygiad ef ei hun, y ffordd mae'n gwisgo ac agweddau eraill ar ei fywyd er mwyn plesio Greg ond nid oes unrhyw beth wedi ei wneud yn hapus.

Ar ôl sawl blwyddyn yn cael ei gam-drin, gofynnodd Harvey am ysgariad. Yna dechreuodd Greg ymosod arno'n gorfforol. Bu'n rhaid i Harvey ddianc o'r cartref a symudodd i mewn i westy er mwyn bod yn ddiogel. Stelciodd Greg Harvey a daeth i wybod ble'r oedd yn aros. Rhuthrodd i mewn i ystafell fwyta'r gwesty gan weiddi pethau sarhaus am rywioldeb Harvey. Teimlodd Harvey gywilydd ac embaras am nad yw byth wedi datgelu ei rywioldeb yn agored am ei fod ofn homoffobia.

Ni chysylltodd Harvey ag unrhyw wasanaethau ond mae sawl opsiwn y gallai fod wedi cael eu cynnig.

Gellid bod wedi ei annog i gysylltu â gwasanaeth cymorth arbenigol i ddynion heterorywiol, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol sy'n profi cam-drin domestig gan bartner.

Gallai'r gwasanaeth hwn fod wedi helpu Harvey i ddeall y risgiau roedd yn eu hwynebu gan Greg a rhoi opsiynau iddo i ddelio â'r cam-drin cynyddol.

Byddai'r opsiynau hyn wedi cynnwys rhai cyfiawnder troseddol neu sifil, cymorth i gael gafael ar gyngor cyfreithiol ynghylch ei ysgariad a chymorth digartrefedd.

6 Darparu ymateb effeithiol i bobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig

Fel mae'r adran flaenorol yn ei amlinellu, gall pobl hŷn fod wedi goresgyn llawer o rwystrau i ddatgelu cam-drin; bydd llawer ohonynt yn gysylltiedig â'u canfyddiad o wasanaethau a bod yn agored i ymgysylltu.

Mae'r adran ganlynol yn darparu rhai pwyntiau seiliedig ar ymarfer i lunio ymateb arnynt ond mae hefyd yn hanfodol bod sefydliadau yn ystyried y mater hwn ar lefel strategol ac mewn trefniadau partneriaeth. Dylai sefydliadau fod yn ystyried y pwyntiau canlynol yn y gwaith hwn:

- Cydnabyddiaeth y gall fod angen ymyrryd yn hir am fod dioddefwyr hŷn wedi cael eu cam-drin am gyfnod hwy.
- Sicrhau bod y rheini sy'n gofalu am bobl hŷn yn cael hyfforddiant i adnabod cam-drin ac yn ymyrryd yn effeithiol.
- Cynyddu'r trefniadau cydlynu rhwng gwasanaethau iechyd, diogelu a cham-drin domestig gan gydnabod bod materion gofal a dibyniaeth yn aml yn gysylltiedig.
- Targedu pobl hŷn gyda deunyddiau a negeseuon penodol. Peidiwch â thybio bod pobl hŷn yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.
- Bod yn ymwybodol y gall pobl hŷn fod yn llai tebygol o ddatgelu a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gallu gofyn cwestiynau priodol a rhoi'r gofod a'r cyfle i ddioddefwyr siarad.
- Sefydlu eiriolwyr sydd â gwybodaeth lefel uwch am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (grŵp 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol) o fewn gwasanaethau cyhoeddus.
- Sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn llawn mewn ymholiadau diogelu oedolion.
- Gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau elusennol arbenigol a chyhoeddus er mwyn cynnig gwasanaethau galw heibio ac allgymorth sy'n targedu pobl hŷn yn benodol.
- Sicrhau bod profiad pobl hŷn yn cael ei ystyried fel rhan o asesiadau o anghenion, gwaith comisiynu ac ailddylunio gwasanaethau.
- Cynnig gwasanaeth wedi'i gydlynu i bobl hŷn er mwyn sicrhau ymateb priodol i bryderon cam-drin domestig ac y caiff systemau diogelu eu defnyddio'n effeithiol pan ddatgelir cam-drin.
- Sicrhau bod timau diogelu plant ac oedolion yn ymrwymedig i waith amlasiantaeth lleol effeithiol, gan gynnwys mynychu Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC).

Mae llawer o'r problemau sy'n wynebu dioddefwyr hŷn yn gyffredin i bawb sy'n profi cam-drin domestig. Fodd bynnag, mae profiadau dioddefwyr hŷn yn aml yn waeth oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol sy'n gofyn am ymateb wedi'i deilwra.²⁴

²⁴ Safelives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse.

Rhaid i unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n dod yn ymwybodol o gam-drin domestig weithredu'n effeithlon ac yn ddiogel er mwyn darparu ymateb effeithiol. Bydd angen i lawer o bobl hŷn gael amser i ddatgelu/trafod y cam-drin a phenderfynu beth i'w wneud amdano, felly peidiwch â disgwyl penderfyniad ganddynt ar unwaith. Mae'n bwysig peidio â beirniadu a rhoi'r cyfle iddynt rannu eu pryderon mewn amgylchedd diogel (pan nad yw'r camdriniwr yno).

Os bydd gweithiwr proffesiynol yn amau cam-drin, ond nad yw'r person hŷn yn datgelu'r wybodaeth hon, dylid cysylltu â llinell gymorth 24 awr 'Byw Heb Ofn': 0808 8010 800. Mae'r llinell gymorth hon ar gyfer Cymru gyfan ar gael i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Bydd yn rhoi'r wybodaeth fwyaf priodol i chi i'ch helpu i gefnogi'r sawl sy'n dioddef cam-drin. Gall y llinell gymorth roi manylion cyswllt gwasanaethau gymorth cam-drin domestig arbenigol perthnasol yn eich ardal.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²⁵ ("Deddf 2014") yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdod Lleol i wneud ymholiadau, neu drefnu hynny, os credir bod 'oedolyn' (gan gynnwys pobl hŷn) yn profi cam-drin neu esgeulustod, neu'n wynebu risg o hynny. Bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu pa gamau y dylai'r awdurdod neu eraill eu cymryd. Mae gan Awdurdodau Lleol weithdrefnau diogelu oedolion ar waith i gefnogi ymholiadau o'r fath a chydlynu camau gweithredu â sefydliadau partner, er mwyn rhoi gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal a all atal cam-drin a helpu pobl i ddiogelu eu hunain.

Pan fyddwch yn dod i gysylltiad â pherson hŷn lle rydych yn amau/credu neu'n gwybod ei fod yn cael ei gam-drin gan bartner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu, dylid ystyried y pwyntiau canlynol bob amser:

- Caiff ansawdd gofal a thriniaeth pobl hŷn ei beryglu os nad yw ar gael yn eu hiaith eu hunain. Bydd cleientiaid yn llai abl i dderbyn atgyfeiriadau ac ymgysylltu'n llawn. Dylai gwybodaeth a chymorth fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau (er enghraifft, Braille a fersiynau sain, a defnyddio meintiau ffont mawr) a'r ieithoedd a siaredir gan y cleient;
- Aseswch yr angen am gymorth meddygol;
- Efallai y bydd dioddefwyr yn ofni eu diogelwch ac yn amharod i ymgysylltu – gwrandewch a thawelwch feddwl y dioddefwr (dywedwch eich bod yn ei gredu ac mai dweud wrthynt oedd y penderfyniad iawn);
- Gall y dioddefwr fod yn destun ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi gan y camdriniwr honedig;
- Siaradwch â phawb yn breifat;
- Dywedwch fod gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol ar gael i'w helpu;

²⁵ www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf


- Gall camdriniwr sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n rheoli ac yn gorfodi fanipwleiddio gweithwyr proffesiynol drwy osod y llwyfan neu gamu i mewn i gymeriad cyn iddynt gyrraedd sy'n ei ddangos fel rhywun gofalgar, gan atgyfnerthu ofn y dioddefwr na chaiff ei gredu;
- Gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi fod yn gynnil ac yn niweidiol iawn;
- Gofynnwch gwestiynau priodol i weld beth sydd wedi digwydd;
- Os ydych wedi cael yr hyfforddiant priodol, casglwch wybodaeth ynghyd i asesu'r risg (ystyriwch ddefnyddio RIC Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu a Thrais seiliedig ar Anrhydedd (DASH));
- Cofnodwch y wybodaeth a gewch;
- Gofynnwch am ganiatâd i rannu gwybodaeth am y cam-drin gydag asiantaethau eraill gyda'r nod o'u diogelu rhag rhagor o gam-drin;
- Cofnodwch eich arsylwadau eich hun ac unrhyw bryderon penodol sydd gennych am ddiogelwch y dioddefwr (dylech gynnwys manylion pryderon o'r fath mewn unrhyw atgyfeiriad a wnewch);
- Os credwch fod y dioddefwr yn wynebu risg uchel o gael ei ladd neu gael anaf difrifol atgyfeiriwch y dioddefwr at MARAC;
- Cysylltwch â'ch arweinydd diogelu i gael arweiniad a chymorth.

Isod, manylir ar opsiynau ymarferol wrth ddarparu cymorth i bobl hŷn.

Mae'r **Llwybr at gefnogi pobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt** yn ceisio cysoni dyletswyddau statudol sydd eisoes yn bodoli neu sydd yn yr arfaeth a all ymwneud â phobl hŷn, ag arfer da mewn perthynas â cham-drin domestig.

Mae'r siart lif yn cyfeirio at y "ddyletswydd i adrodd" a'r "ddyletswydd i ymholi" o dan Ddeddf 2014. Daeth y dyletswyddau a'r gofynion statudol perthnasol i rym ym mis Ebrill 2016. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain yma.

Llwybr at gefnogi pobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt



Nodi achosion o gam-drin

Ni fydd dioddefwyr hŷn cam-drin domestig fel arfer yn datgelu'r cam-drin yn wirfoddol i weithiwr proffesiynol oni ofynnir hynny yn uniongyrchol iddynt. Mae ofn y cyflawnwr, gwarth neu reolaeth orfodol oll yn creu rhwystrau sy'n atal rhywun rhag datgelu'n wirfoddol. Mae pobl hŷn (a llawer o ddioddefwyr eraill cam-drin domestig) yn aml yn gobeithio y bydd rhywun yn gofyn iddynt a ydynt yn dioddef ac mae'n hysbys bod gwneud ymholiadau proffesiynol o'r fath yn cynyddu nifer yr achosion o gam-drin domestig a nodir. Felly mae'n bwysig bod y rhai sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn cael eu hyfforddi i "Ofyn a Gweithredu".²⁶

"Gofyn a Gweithredu"

Mae "Gofyn a Gweithredu" yn broses ymholi wedi'i thargedu i'w dilyn gan wasanaethau cyhoeddus er mwyn nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term ymholi wedi'i dargedu yn disgrifio sefyllfa lle caiff arwyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu hadnabod, gan ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i'w gleient a oes unrhyw un o'r materion hyn wedi effeithio arno.

Nodau "Gofyn a Gweithredu" yw:

- adnabod mwy o unigolion sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i rai sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient;
- dechrau creu diwylliant drwy'r Gwasanaeth Cyhoeddus cyfan lle mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes sy'n cael ei dderbyn a datgelu'n cael ei ddisgwyl, ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso;
- gwella'r ymateb i rai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl;
- ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posibl, â rhai sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn hytrach nag ymgysylltu'n ymatebol yn unig â rhai sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl enbyd o gael niwed difrifol.

Cymhwyso "Gofyn a Gweithredu" gyda phobl hŷn

Pan fydd wedi'i gyflwyno'n genedlaethol, dylai "Gofyn a Gweithredu" gael ei gymhwyso gyda phobl hŷn sydd â dangosyddion posibl o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r dangosyddion yn cynnwys symptomau meddygol (fel iselder, pryder neu boen na ellir ei esbonio'n feddygol), arwyddion sy'n gysylltiedig ag ymarweddiad ac ymddygiad y cleient, gan gynnwys newid agweddol neu ddarn o wybodaeth neu batrwm ymddygiad y dylid holi yn ei

²⁶ Ar adeg cyhoeddi, caiff 'Gofyn a Gweithredu' ei dreialu mewn sawl rhanbarth yng Nghymru. Bwriedir cyflwyno canllawiau statudol er mwyn ategu'r polisi.

gylch (sef "arwyddion"). Ceir tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu mewn rhai lleoliadau fod gwneud ymholiadau cyffredin yn briodol gan fod y rheswm dros ymwneud y cleient â'r lleoliad hefyd yn sbardun ar gyfer gwneud ymholiadau mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys lleoliadau mamolaeth ac ôl-enedigol, iechyd meddwl a cham-drin plant.

Mae gallu a hyder proffesiynol i wneud ymholiadau'n ddiogel ynghylch profiad posibl o gam-drin domestig neu drais rhywiol yn bwysig iawn wrth weithio gyda phobl hŷn. Mae'n ymyriad pwysig hyd yn oed pan na fydd yn arwain at ddatgelu gan ei fod:

- yn dangos bod y gweithwyr proffesiynol a'r sefydliad yn cymryd yr achos o gam-drin o ddifrif;
- yn gyfle i'r dioddefwr gasglu deunydd i'w ystyried ac sy'n rhoi gwybodaeth iddo neu iddi;
- yn gyfle i gynnig gwybodaeth am wasanaethau arbenigol p'un a wneir datgeliad ai peidio.

Er mwyn "Gofyn a Gweithredu" mewn modd effeithiol yn achos pobl hŷn mae'n hollbwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ystyried yn ofalus y rhwystrau a all atal pobl hŷn rhag datgelu a gwneud yr hyn a allant i liniaru'r rhain. Mae'r canlynol yn ddefnyddiol eu hystyried:

- Dylech sicrhau eich bod ar eich pen eich hun gyda'r person cyn holi ynghylch cam-drin posibl – peidiwch byth â gofyn hynny o flaen partner, ffrind neu blentyn;
- Byddwch yn glir ynghylch terfynau polisi cyfrinachedd eich sefydliad;
- Gwnewch yn siŵr na all neb dorri ar eich traws, a bod gennych chi – a'r person – ddigon o amser;
- Defnyddiwch gyfieithwyr ar y pryd proffesiynol;
- Peidiwch â bwrw ati gydag ymholiad os nad oes gan y person y galluedd i roi caniatâd ar gyfer y cyfweiliad;
- Dogfennwch ymateb y person;
- Gofynnwch i'r person a oes unrhyw ddyfeisiau recordio yn yr ystafell neu unrhyw beth arall a fyddai'n ei atal rhag gallu datgelu ei sefyllfa yn llawn;
- Gofynnwch i'r person am ddigwyddiadau blaenorol, nid dim ond y digwyddiad sydd wedi arwain at ddatgelu;
- Gall patrwm ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli wneud i'r dioddefwr deimlo ofn. Mae nodi hyn yn bwysig iawn wrth benderfynu a yw rheolaeth orfodol yn cael ei defnyddio fel rhan o'r cam-drin.

Mae'n hollbwysig bod gweithwyr proffesiynol yn egluro i'r dioddefwr (ymhob achos o gam-drin) nad eu bai hwy yw'r cam-drin a bod ganddynt yr hawl i gael eu diogelu a'u cefnogi i ystyried beth yw eu hopsiynau.



Astudiaeth achos: darparu ymateb effeithiol

Mae Shareen yn 83 oed. Mae'n weddw ac yn byw gyda'i mab a'i merch-yng-nghyfraith yn eu cartref. Mae gan Shareen alluedd meddyliol ond oherwydd ei phroblemau iechyd mae'n gaeth i'w gwely. Yn flaenorol, ystyriwyd Shareen yn fatriarch y teulu, ond, yn dilyn strôc, mae dynameg y teulu wedi newid ac mae ei merch-yng-nghyfraith wedi dod yn fwy dominyddol.

Caiff Shareen wasanaethau gofal sylfaenol. Mae ei gofalwyr wedi sylwi ei bod wedi mynd i'w chragen ac i'w gweld yn isel, ac mae'n dawel iawn pan fydd ei mab neu ei merch-yng-nghyfraith o gwmpas. Mae gan Shareen friwiau pwysedd ac mae ei hylendid personol yn gwaethygu.

Mae gan Shareen dîm cyson o ofalwyr a thros amser maent yn ennill ei hymddiriedaeth. Mae'n datgelu ei bod yn anhapus iawn yn byw gyda'i mab a'i merch-yng-nghyfraith a'i bod am adael cartref y teulu. Dywed fod ei mab a'i merch-yng-nghyfraith yn ei hesgeuluso a'i bod yn credu mai'r rheswm eu bod am iddi aros gyda nhw yw er mwyn cael mwy o fudd-daliadau.

Mae'r gofalwyr yn hysbysu eu rheolwr sy'n cysylltu â'r Awdurdod Lleol i godi pryder diogelu. Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod yr achos yn un diogelu a cham-drin domestig ac mae'n penodi swyddog diogelu.

Mae'r swyddog diogelu yn cysylltu â'r asiantaeth ofal er mwyn gweld pryd fyddai'n ddiogel i weithiwr cymdeithasol ymweld â Shareen. Dywed yr asiantaeth ofal fod y mab a'r ferch-yng-nghyfraith fel arfer allan o'r eiddo ar amser a diwrnod penodol o'r wythnos.

Mae'r tîm diogelu hefyd yn cysylltu â gwasanaeth cam-drin domestig BME arbenigol er mwyn gofyn am ei gyngor. Gall y sefydliad roi cyngor ar y risgiau sy'n wynebu Shareen o fewn ei theulu a'i chymuned, diogelu cyfrinachedd Shareen a lleihau'r risg o unrhyw ddylanwad amhriodol a roddir arni, os daw ei theulu yn ymwybodol o'r datgeliad.

Mae'r swyddog diogelu yn trafod strategaeth gyda gweithiwr cymdeithasol profiadol ac yn rhannu manylion y pryderon a godwyd a'r cyngor a roddwyd gan y gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol BME.

Mae gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â Shareen pan nad yw ei mab a'i merch-yng-nghyfraith gartref. Mae Shareen yn cadarnhau ei bod am adael a symud i mewn i gartref gofal. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn asesu ei hanghenion gofal sydd o blaid ei rhoi mewn cartref nyrsio. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymholiadau ac yn dod o hyd i gartref nyrsio addas yn y pen draw. Gwneir trefniadau i Shareen symud i'r cartref ac mae'r gweithiwr cymdeithasol yn rheoli ac yn asesu'r ffordd y caiff hyn ei rannu â'r teulu yn barhaus, gan roi lles a diogelwch Shareen wrth wraidd ei ystriaethau.

Gwneud asesiad o risg ac angen

Os bydd unigolyn hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn datgelu ei brofiad o drais a/neu gamdriniaeth mae'n bwysig bod y datgeliad hwn yn cael ei ddilyn gan weithgarwch sy'n asesu ac yn mynd i'r afael wedyn â'r risg y mae'n ei hwynebu, ochr yn ochr â'i anghenion. Bydd y risgiau a'r anghenion hyn yn ymwneud â'r profiad o gam-drin, natur y cam-drin ac unrhyw anghenion sy'n codi o ffactorau ychwanegol sy'n gwneud pobl yn agored i niwed. Mae'r maes ymarfer hwn yn gymhleth iawn a dylid gofyn i ymarferwyr profiadol a gwybodus, fel gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol ac arweinwyr diogelu o fewn eich sefydliad, am gyngor.

Penderfyniadau annoeth a phenderfyniadau a wneir dan orfodaeth

Wrth asesu risg unigolyn hŷn o niwed ac angen efallai y bydd angen asesu ei alluedd i wneud penderfyniad penodol a dylai hyn gael ei wneud gan weithiwr proffesiynol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol.²⁷

Gall asesu galluedd fod yn arbennig o heriol mewn achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol. Efallai y bydd yr aelod o'r teulu neu bartner agos yn gofalu am y person hwn neu'n byw gydag ef a bydd y person yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r cydberthnasau hyn sy'n ei roi mewn perygl yn ôl pob golwg.

Mewn achosion o'r fath bydd angen ceisio deall a yw'r penderfyniadau hyn yn 'benderfyniadau annoeth' lle mae gan y person y galluedd a'r rhyddid i'w gwneud, neu'n benderfyniadau nas gwneir drwy wirfodd, oherwydd yr orfodaeth a'r rheolaeth, a'u bod yn felly yn rhan o'r cam-drin. Mae angen dulliau asesu ac ymyrryd medrus i wneud yr ystyriaeth hon.

Os bydd gweithwyr proffesiynol yn penderfynu, ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r amser a dreulir gyda rhywun, fod y person wedi gwneud 'penderfyniad annoeth' y mae ganddynt y galluedd meddyliol i'w wneud, yna efallai na fydd yn ymddangos bod angen iddynt gynnig yr opsiynau sydd ar gael iddynt mewn perthynas â cham-drin domestig. Byddai hyn yn gyfle coll os yw'r person yn wynebu risg neu'n cael ei gam-drin. Dylai gweithwyr proffesiynol ystyried a chynnig yr un opsiynau i'r rhai sy'n profi cam-drin domestig ag y byddent yn ei wneud i unrhyw unigolyn arall, waeth beth fo cymhlethdod anghenion na ffactorau eraill sy'n gwneud pobl yn agored i niwed.

Wrth lunio barn ynghylch galluedd rhaid ystyried penderfyniadau penodol; gall rhywun fod â'r galluedd meddyliol i wneud un penderfyniad a'i roi ar waith, ond nid un arall. Dylid hefyd ystyried galluedd newidiol.

Y maes ymarfer hwn yw un o'r materion mwyaf cymhleth yn aml i'w ystyried wrth weithio ym maes diogelu pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig. Dylid gofyn am gyngor a chymorth arbenigol er mwyn sicrhau y gwneir ystyriaethau priodol yn ystod asesiadau. Mewn amgylchiadau

²⁷ Gweler Mental Capacity Act 2015 Code of Practice www.gov.uk/government/publications/mental-capacity-act-code-of-practice.

penodol, er enghraifft pan fydd pob cam arall wedi'i gymryd neu pan fydd risg ddifrifol o niwed uniongyrchol, efallai y bydd awdurdod lleol am ystyried cychwyn achos llys a cheisio apelio at awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys i amddiffyn oedolyn sy'n agored i niwed, gan gynnwys, er enghraifft, lle mae cyfyngiadau yn eu hamgylchiadau, gorfodaeth neu ddylanwad amhriodol wedi effeithio ar allu'r dioddefwr i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, bydd y camau priodol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a dylid eu hystyried fesul achos ar ôl cael cyngor arbenigol.

Anghenion gofal a chymorth

Efallai y bydd gan bobl hŷn anghenion ychwanegol sy'n gysylltiedig â gofal a chymorth. Gall y rhain gael eu hysgogi gan eiddilwch corfforol, problemau symudedd, problemau sy'n gysylltiedig â'r golwg a'r clyw neu effaith (a chamddefnydd posibl) meddyginiaeth a ragnodwyd.

Fel rhan o asesiad o risg ac angen, dylai ymarferydd ystyried a yw anghenion gofal a chymorth person hŷn yn cael eu diwallu. Dylid ystyried a yw'n gallu cael gafael ar fwyd, dillad, meddyginiaeth, sbectol, cymhorthion clyw a gofal meddygol neu a oes rhywun yn ei atal rhag cael gafael arnynt.

Nodi risg mewn perthynas â cham-drin domestig

Mae nodi risg i unigolion sy'n profi cam-drin domestig yn broses sy'n esblygu. Datblygwyd adnoddau nodi risg cynnar yn wreiddiol yn Ne Cymru ac mewn rhai rhannau o Loegr ar ddechrau'r 2000au. Fodd bynnag, roedd dealltwriaeth a chydabyddiaeth glir y byddai angen datblygu'r adnodd ymhellach wrth i wybodaeth y sector yn y maes hwn gynyddu.

Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH RIC) yw'r adnodd adnabod arwyddion risg mwyaf cyffredin a ddefnyddir. Fe'i defnyddir (neu bethau tebyg iawn) ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus, gan bob heddlu a chan arbenigwyr cam-drin domestig. Seilir y Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg ar gasgliadau llawer o Ddynladdiadau Domestig ac Adolygiadau o Achosion Difrifol ac Ymarfer Oedolion ac mae'n tynnu sylw at y ffactorau cyffredin a welwyd mewn achosion a arweiniodd at farwolaeth neu niwed difrifol. Er mwyn bod yn gryno ni chaiff y Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg ei atgynhyrchu yn y canllawiau hyn, ond darperir dolenni i'r adnodd yn y troednodyn isod.²⁸

Bydd angen i weithwyr proffesiynol ystyried pa adnodd risg sydd fwyaf priodol iddynt hwy ei ddefnyddio er mwyn helpu i nodi lefel y risg. Nid yw'r canllawiau hyn yn dynodi pa adnodd i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'n darparu'r dolenni i'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn i chi eu hystyried. Dylech ofyn am gyngor gan eich tîm diogelu o ran pa Restr Wirio i'w defnyddio.

²⁸ www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Dash%20with%20guidance%20FINAL.pdf

Diben y Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg yw rhoi adnodd cyson a syml i ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion sy'n cael eu cam-drin i nodi risgiau hysbys; cymryd camau i liniaru'r risgiau hyn neu fynd i'r afael â nhw; a hwyluso atgyfeiriadau priodol at Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC).

Ni ddylai'r Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg ond bod yn rhan o'r gwaith asesu risg. Gall helpu i nodi'r ffactorau risg mwyaf cyffredin ac mae'n seiliedig ar brofiadau'r rhai sydd fwyaf tebygol o brofi trais a chamdriniaeth ddifrifol. Ni all adlewyrchu holl nodweddion sefyllfa unigolyn.

Fel gyda phob cleient, wrth ddefnyddio'r Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg gyda pherson hŷn dylai gweithwyr proffesiynol ddefnyddio'r adnodd i'w tywys wrth lunio barn broffesiynol. Mae barn broffesiynol yn golygu ystyried y sefyllfa gyfan, nid dim ond canlyniad y Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg.

Bydd adegau pan fydd cyd-destun penodol achos yn arwain at bryderon difrifol hyd yn oed os na allai'r dioddefwr ddatgelu gwybodaeth a allai amlygu ei risg yn gliriach. Gallai hyn gynnwys lefelau eithafol o ofn, eiddilwch dioddefwr, rhwystrau diwylliannol i ddatgelu, materion mewnfudo neu rwystrau ieithyddol yn enwedig mewn achosion o drais ar sail 'anrhydedd' fel y'u gelwir.

Mewn rhai achosion gall fod yn anodd mynegi'r farn hon mewn geiriau; gall fod yn deimlad nad yw rhywbeth yn iawn neu'n deimlad greddf. Wrth lunio barn broffesiynol, dylai ymarferwyr gofio y gall mwy nag un person fod yn wynebu risg, gan gynnwys plant, ac oedolion eraill sy'n agored i niwed y bydd angen eu hatgyfeirio o bosibl at wasanaethau diogelu plant neu oedolion.

Mae cymorth i ddeall risg yn y cyd-destun hwn ar gael i weithwyr proffesiynol drwy linell gymorth Byw Heb Ofn: 0808 80 10 800 a thrwy eich tîm Diogelu.

Defnyddio Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg gyda phobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o risgiau a phroblemau, sy'n benodol gysylltiedig â'r profiad o gam-drin domestig gan bobl hŷn y mae'n rhaid ei hystyried wrth weithio gyda'r grŵp cleientiaid hwn a llunio barn broffesiynol ar eu sefyllfa.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cynnal gwaith pellach yn y maes hwn, gan gynnwys cynllun peilot o Restr Wirio Adnabod Arwyddion Risg diwygiedig a darparu hyfforddiant o ansawdd. Darperir dolenni i'r gwaith hwn isod.²⁹

Mae'r dystiolaeth newydd, sy'n seiliedig ar ymatebion amlasiantaethol i bobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig, wedi canfod bod gwaith asesu risg gyda phobl hŷn yn arwain at sgoriau is nag y gellid bod wedi eu

²⁹ www.olderpeoplewales.com/en/adult_protection/ric_checklist.aspx.

disgwyl mewn 20% o 131 o ddiodefwyr hŷn.³⁰ Priodolodd y gweithwyr proffesiynol yn yr astudiaeth yr asesiad risg anghywir i'r canlynol:

- bylchau o ran darparu gwasanaethau;
- diffyg gwybodaeth a hyfforddiant ar amrywiaeth cam-drin domestig;
- canfyddiadau cymdeithasol pobl hŷn.³¹

Mae nodi'r risgiau sy'n wynebu pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yn hanfodol i arfer da ac yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl hŷn. Bydd dealltwriaeth gynhwysfawr a thrylwyr o risg yn helpu'r gweithiwr proffesiynol i ddeall profiad y diodefwr ac unrhyw bobl eraill a fu'n dyst i'r cam-drin. Dylai hefyd fod yn sail i gynllun i wella diogelwch y person hwnnw, eu hopsiynau atgyfeirio a chynnwys asiantaethau partner. Dylid ystyried asesiad risg mewn ffordd gyfannol bob amser oherwydd gall pethau waethygu'n gyflym iawn. Mae hefyd yn bwysig iawn sicrhau bod gwasanaethau priodol sy'n seiliedig ar gryfderau ac a arweinir gan anghenion ar gael i bawb sy'n profi cam-drin domestig, waeth beth fo'r lefel o risg.

Bydd angen i weithwyr proffesiynol asesu nifer o ystyriaethau wrth gwblhau Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg. Bydd y rhain yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â cham-drin corfforol, rhywiol, emosiynol ac economaidd, yn ogystal ag ystyried a oes unrhyw dystiolaeth amlwg o orfodaeth neu fygythiad.

Mae asesu risg mewn ffordd briodol a chadarn yn dibynnu llawer ar y gydberthynas rhwng yr aseswr a'r rhai sy'n cael eu hasesu. Mae meithrin cydberthynas ymddiriedus â'r un sy'n cael ei gam-drin yn debygol o arwain at well tryloywder gan yr unigolyn ynglŷn â'i amgylchiadau.

Wrth ddefnyddio'r Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg, bydd angen i'r gweithiwr proffesiynol hefyd ystyried y 'ffactorau sbarduno' dwysach penodol sy'n gysylltiedig â chyfansoddiad y teulu dan sylw a hefyd nodweddion yr unigolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin, e.e. os yw'r unigolyn yn berson hŷn, A oes unrhyw blant yn bresennol? A oes ffactorau diwylliannol i'w hystyried?

Dylid ystyried dimensiynau sefyllfaol ac amserol a dylid gofyn cwestiynau penodol os yw'r diodefwr neu'r cyflawnwr a amheuir yn berson hŷn, neu os oes unrhyw blant yn y cartref (gan gynnwys mewn trefniadau lle mae gofalwyr sy'n berthnasau).

Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd nodi bod pobl hŷn yn cael eu cymell i geisio help yn aml am y rhesymau canlynol:

- mae'r gamdriniaeth yn mynd mor ddifrifol fel na all y person hŷn ei oddef mwyach;
- yr ofn y byddant yn cael eu lladd yn dwysáu;
- pryderon ynghylch lles y camdriniwr.³²

³⁰ Wedi'i seilio ar archwiliad o'r wybodaeth oedd ar gael ar adeg y cyswllt.

³¹ Clarke et al, 2012; An Evaluation of the Access to Justice Pilot Project.

³² Yan 2015

Felly mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn cymryd pryderon y person hŷn o ddifrif os bydd yn datgelu camdriniaeth gan aelod o'r teulu, ac yn cynnal asesiad risg trylwyr gan weithredu mewn ffordd ragweithiol i ddatblygu cynllun diogelwch.

Mae'r broses o adnabod arwyddion risg yn gofyn am amser a sensitifrwydd. Dylai'r person sy'n wynebu risg, neu'r eiriolwr y mae'n ymddiried ynddo neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) (os nad oes gan y person alluedd meddyliol) fod yn gysylltiedig â'r broses er mwyn sicrhau bod y gwaith yn gywir ac yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth a'i fod yn rhoi cyfle i'r person hŷn nodi, disgrifio a deall y risgiau drosto ef ei hun.

Nid oes modd nodi risg yn effeithiol os bydd gweithwyr proffesiynol yn arddel barn sy'n cynnwys mythau, stereoteipiau a chredoau gwallus ynghylch natur cam-drin domestig. Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol fod â meddwl agored a mabwysiadu ymagwedd empathig ac anfeirniadol.

Mae'n bwysig bod y gweithiwr proffesiynol yn helpu'r person i ddatgelu ei ymatebion ei hun i ymddygiad y camdriniwr sy'n gorfodi ac yn rheoli. Gall hyn fod yn anodd gan eu bod yn ofni cael eu barnu ac yn ofni'r hyn a allai ddigwydd. Er enghraifft gall person sydd wedi bod yn destun ymddygiad diraddiol a gwarth fod â gormod o gywilydd i drafod yr hyn y mae wedi ei brofi.

Yn aml dyma'r rhwystr mwyaf i asesu a rheoli risg yn effeithiol ac mae'n thema gyson mewn Adolygiadau o Ddyladdadau Domestig. Mae angen mynd i'r afael â hyn drwy oruchwylio a hyfforddi staff yn effeithiol a dylai hyn fod yn flaenoriaeth i unrhyw wasanaeth.

Dim ond mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol y dylid cynnal proses asesu risg.

Mae'r profiad o gael eu cam-drin yn effeithio ar bobl hŷn mewn rhai o'r un ffyrdd ag y mae'n effeithio ar ddiodefwyr o unrhyw oedran. Ond mae rhai gwahaniaethau.

Mae'r adran hon yn parhau drwy amlinellu'r mathau o ystyriaethau y dylai gweithwyr proffesiynol eu hystyried wrth weithio gyda phobl hŷn ac wrth lunio barn broffesiynol ar y risgiau a wynebir ganddynt.

Ymhlith ffactorau risg penodol pobl hŷn mae datblygu anghenion iechyd, ymddeol (gan arwain at fwy o gysylltiad), straen sy'n gysylltiedig â rolau gofalu ac ynysu cymdeithasol neu ddaearyddol a all olygu eu bod yn wynebu mwy o risg o gam-drin domestig. Wrth i ni heneiddio gall fod yn anos dod dros gam-drin meddyliol a chorfforol, a gall effaith cam-drin domestig fod yn sylweddol iawn ar y rheini a all fod yn dibynnu ar bartner am ofal a chymorth ariannol.

Mae menywod a dynion hŷn yn fwy tebygol o ddioddef anafiadau corfforol difrifol na menywod a dynion iau. Caiff anafiadau o'r fath eu gwaethygu yn aml gan gyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli sy'n gysylltiedig ag oedran, e.e. arthritis, diabetes neu osteoporosis.³³

Mae ymosodiad corfforol a rhywiol ar ddiodefwyr hŷn yn fwy tebygol o arwain at anafiadau difrifol nag ymosodiadau ar grwpiau oedran eraill, oherwydd newidiadau ffisiolegol yn y corff. Er enghraifft, gwelwyd bod ymosodiadau rhywiol ar fenywod sydd wedi cyrraedd oedran lle mae'r mislif wedi dod i ben yn fwy tebygol o anafu eu horganau cenhedlu oherwydd newidiadau sy'n gysylltiedig ag oedran.³⁴

Yn ôl yr adborth ar sail ymarfer, caiff pobl hŷn eu hystyried yn aml yn anrhywiol ac o ganlyniad nid yw gweithwyr proffesiynol yn debygol o weld pobl hŷn fel diodefwyr trais rhywiol posibl. Gall trais rhywiol fod yn rhan o'r trais a'r cam-drin a brofir gan berson hŷn a dylid cydnabod hyn a mynd i'r afael ag ef yn ystod y broses o adnabod arwyddion risg.

Mae cam-drin ariannol yn ffurf gyffredin ar gam-drin domestig a brofir gan bobl hŷn. Fodd bynnag, ni chydabyddir hyn bob amser gan weithwyr proffesiynol. Dylai'r ystyriaethau canlynol ffurfio rhan o'r broses o adnabod arwyddion risg:

- A ofynnwyd i'r person hŷn, neu a gafodd ei orfodi i lofnodi papurau yn groes i'w ewylllys?
- A oes rhywun arall yn rheoli ei faterion ariannol? Os felly gallai hyn gynnwys:
 - gwario ei arian heb ganiatâd;
 - methu â'i gwneud yn ymwybodol o faint o arian sydd ar gael;
 - peidio â gadael iddo gael gafael ar ei arian;
 - camddefnyddio atwrneiaeth Barhaus/Arhosol;
 - dwyn ei arian neu ei eiddo;
 - rheoli ei gyfrifon a'i filiau;
 - creu dyled yn ei enw.

Mae camdriniaeth emosiynol a seicolegol hefyd yn cael ei phrofi'n aml gan bobl hŷn ond fe'i collir yn aml gan weithwyr proffesiynol. Mae'n bwysig ystyried a oes unrhyw un wedi eu cynhyrfu drwy siarad â hwy mewn ffordd a oedd yn codi cywilydd arnynt neu'n eu bygwth.

Pan fydd rhywun yn cael ei gam-drin gan ei blentyn – naill ai oedolyn neu berson ifanc – gall teimladau o gywilydd neu embaras fod yn gryf iawn ac yn anodd i'w goresgyn. Mae'r rhai sy'n rhieni i'w camdrinwyr yn disgrifio ymdeimlad o fethiant a gwarth ac yn beio eu hunain eu bod yn wynebu'r sefyllfa hon. Mae hefyd yn golygu eu bod yn llai tebygol o gynnwys asiantaethau statudol rhag ofn cael eu plant i drafferth. Gall y

³³ Lazenbatt A (2013) Older Women living and coping with domestic violence. Institute of Sociology, social policy and social work. Queens University, Belfast.

³⁴ Poulos, C. A., & Sheridan, D. J. (2008). Genital injuries in postmenopausal women after sexual assault. *Journal of elder abuse & neglect*, 20(4), 323-335.

cydberthnasau hyn hefyd gynyddu'r pwysau i gadw'n dawel neu aros yn y sefyllfa gamdriniol.

Rheol optimistiaeth

Weithiau gall gweithwyr proffesiynol ymddiried gormod yng ngallu teuluoedd i ofalu'n effeithiol ac yn ddiogel am eu perthnasau. Gall hyn olygu bod y cam-drin, y trais neu'r esgeulustod yn cael ei asesu'n anghywir fel un digwyddiad yn unig sy'n deillio o straen sylweddol neu ddryswch person hŷn sydd â dementia, er enghraifft. Yn aml, ymdrinnir ag achosion o'r fath mewn ffordd amlasiantaethol heb unrhyw ymyriadau cyfiawnder troseddol.

Gelwir hyn yn 'rheol optimistiaeth' a gall arwain at fethu â nodi achosion o gam-drin ac esgeulustod parhaus. Anaml y gwelir achosion o'r fath ond maent yn bodoli ac fe'u nodwyd drwy adolygiadau o achosion difrifol a/neu adolygiadau o ymarfer oedolion. Os amheuir gweithredoedd bwriadol o niwed neu anweithredoedd sy'n arwain at esgeulustod, byddai gweithdrefnau diogelu ac atgyfeirio at yr heddlu yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol yn cael eu rhoi ar waith.

Y pwyntiau i'w hystyried yw:

- A yw'r ymddygiad treisgar neu gamdriniol yn ddigwyddiad unigol neu'n rhan o batrwm o ddigwyddiadau, y gellid eu disgrifio fel rhai sy'n rheoli neu'n gorfodi?
- A oes hanes o ymddygiad treisgar neu gamdriniol neu atgyfeiriadau cam-drin domestig?
- A ofynnwyd am safbwynt/barn y dioddefwr ac aelodau eraill o'r teulu yn annibynnol ac yn breifat? (O fis Ebrill 2016 mae Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion yn opsiwn sydd ar gael i alluogi Awdurdod Lleol i awdurdodi swyddog i fodloni ei hun bod person sy'n wynebu risg yn gallu siarad yn rhydd).

Mae hefyd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ceisio osgoi'r canlynol:

- Gwneud tybiaethau cyffredinol ynghylch 'gofalwyr';
- Ymdrechion anfeirniadol i weld y gorau yn y rhai sy'n cyflawni rôl gofalwr;
- Osgoi ymyrryd am eu bod yn ofni'r hyn a allai ddigwydd;
- Lleddfu pryderon;
- Methu â gweld patrymau sy'n dod i'r amlwg; a
- Methu â sicrhau bod ffocws cyson ar y person sy'n wynebu risg.

7 Y rhai sy'n cam-drin pobl hŷn

Er y gall pobl hŷn fod wedi cael eu cam-drin gan bartner ar hyd eu bywyd neu mewn cydberthnasau newydd, mae hyd at draean o'r cam-drin a brofir gan bobl hŷn yn cael ei gyflawni gan aelodau o'r teulu heblaw am bartneriaid neu gyn-bartneriaid.³⁵

Gall pobl hŷn sy'n sâl, yn eiddil, yn anabl neu sy'n cael problemau iechyd meddwl neu sy'n camddefnyddio sylweddau gael gofal gan aelodau o'r teulu. Yn aml ystyrir bod gofal o'r fath yn gyfraniad gwerthfawr i gymdeithas; ystyrir bod cymorth gofalwyr yn aml yn rhan annatod o'r ffordd y mae asiantaethau yn ceisio gweithio.

Fodd bynnag, os mai gofalwr yw'r person sy'n cam-drin hefyd mae teimlad ynysig y person hŷn a lefel y rheolaeth a wynebwr ganddo yn dwysáu gan ei fod yn dibynnu ar y camdriniwr am ei ofal a'i annibyniaeth. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol a'u hanghenion gofal a chymorth, gall pobl hŷn ofni canlyniadau ymyrryd os rhoddant wybod bod eu gofalwr teuluol yn eu cam-drin. Er enghraifft, colli cyswllt â pherthnasau fel plant neu wyrion ac wyresau, colli cymorth ariannol, neu ofni cael eu rhoi mewn cartref gofal.

Gall yr ymddygiad sy'n cam-drin fod yn gysylltiedig â newid yn nymameg y gydberthynas rhwng plentyn sy'n oedolyn a'r rhiant hŷn; gall fod yn gysylltiedig â chyd-ddibyniaeth a rhywun hŷn yn dibynnu ar y camdriniwr am ei ofal llawn amser. Gall newidiadau mewn trefniadau byw olygu bod y person hŷn yn cael ei dargedu gan fwy nag un cyflawnwr, er enghraifft mab a merch-yng-nghyfraith.

Mae'r rhan fwyaf o'r deunydd darllen ar gamdrinwyr domestig yn canolbwyntio ar ymddygiad gorfodol rhagfwiadol ac mae'r diffiniad hwn yn gymwys i brofiad llawer o bobl hŷn o gam-drin. Fodd bynnag, wrth ystyried y ddynamic rhwng y dioddefwr a'r cyflawnwr mewn Gwerthusiad Mynediad i Gyfiawnder diweddar, nodwyd dau fath cyffredinol o ymddygiad gan gyflawnwr: ymddygiad adweithiol gan gyflawnwr (anfwriadol, wedi ei achosi gan aelodau o'r teulu yn cael anhawster i ymdopi â gofalu am aelod o'r teulu) ac ymddygiad rhagweithiol gan gyflawnwr (bwriadol a gorfodol o bosibl). Mae canfyddiadau o'r fath wedi cael eu gweld eto mewn ymchwil ddilynol.³⁶

Mae ymddygiad adweithiol gan gyflawnwr yn disgrifio ymddygiad camdriniol sy'n digwydd am fod cyflawnwyr yn ymateb yn negyddol i'w hamgylchiadau bywyd cyffredinol eu hunain a/neu am na allant ymdopi â gofalu am rywun hŷn yn ddyddiol. Yn y sampl ymchwil, roedd 131 o bobl hŷn, 48% o feibion a 40% o ferched yn y categori adweithiol.

³⁵ Smith, E. (2012) *Violent Crime against the Elderly Reported by Law Enforcement in Michigan, 2005-2009*, NCJ 238546, Washington, DC: Bureau of Justice Statistics, US Department of Justice.

³⁶ Clarke, A., Williams, J., Wydall, S. (2016) 'Access to justice for victims of elder abuse' *Social Policy and Society Cambridge Journal (now in early view)* pp 1-14; Davies, R., Collins, M., Netana, C., Folkes, L., Jenkins, R., Tombs, M., Kaye, A. Stackhouse, B. and Evans, C. (2011), Exploring the Motivations of Perpetrators Who Abuse Vulnerable Adults, Casnewydd: Prifysgol Cymru, www.udid.research.glam.ac.uk/media/files/documents/2012-10-11/Final_Report_post_peer_review_June_2012.pdf (agorwyd 26 Mawrth 2013).

Ni ddylid byth danbwysleisio effaith cam-drin domestig ar bobl hŷn, p'un a yw ymddygiad y cyflawnwyr yn rhagweithiol neu'n adweithiol. Dylai gwasanaethau gael eu darparu ar gyfer y person hŷn yn y ddau achos.

Mae'n bwysig cydnabod bod ymyrryd â chamdrinwyr domestig yn faes ymarfer cymhleth, hynod fedrus sy'n datblygu. Dylai arfer gorau gynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhaglen cyflawnwyr achrededig.

Dylai'r sawl nad ydynt yn arbenigo yn y maes gymryd gofal wrth weithio gyda'r rheini sy'n defnyddio cam-drin er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynllwynio â'r ymddygiad. Gall y fath gynllwynio gynnwys beio'r dioddefwr, tanseilio safbwynt y goroeswr o'r sefyllfa, peidio â herio'r ymddygiad fel rhywbeth annerbyniol neu ei gyflawnhau.³⁷

Dylai'r ffordd yr ymatebir i'r cyflawnwr hefyd fod yn ystyriol a dylai unrhyw gamau gweithredu fod yn ddiogel ac yn hyddysg. Yn achos cyflawnwyr y mae eu hymddygiad yn adweithiol gall hyn olygu ailasesu'r trefniadau gofal a chymorth ychwanegol.

Dylid hefyd ystyried rhoi ymyriadau cam-drin domestig arbenigol achrededig ar waith. Mae'r rhaglenni hyn yn mynd i'r afael â chredoau ac ymddygiad sylfaenol, ac maent yn wahanol i gyrsiau eraill, fel rhaglenni rheoli dicter, nad ydynt yn ymatebion priodol i gam-drin domestig. Maent yn rhaglenni newid ymddygiad i ddynion sy'n defnyddio trais ac yn cam-drin eu partneriaid neu gyn-bartneriaid. Cânt eu rhedeg mewn grwpiau bach sy'n ceisio:

- helpu cyflawnwyr i roi'r gorau i fod yn dreisgar ac yn gamdriniol;
- eu helpu i ddysgu sut i ymwneud â'u partneriaid mewn ffordd barchus a chyfartal;
- dangos ffyrdd o ddelio ag anawsterau yn eu cydberthnasau mewn ffordd nad yw'n gamdriniol a dangos iddynt sut i ymdopi â'u dicter;
- cadw eu partner yn fwy diogel.

Dylai pob rhaglen gael gwasanaeth atodedig i bartneriaid sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth.

Lluniwyd y rhan fwyaf o raglenni cyflawnwyr trais domestig ar gyfer dynion mewn cydberthnasau heterorywiol. Mae rhai o'r rhaglenni hyn hefyd yn gweithio gyda menywod (mewn cydberthnasau heterorywiol neu gyda phartneriaid o'r un rhyw) a chyda dynion hoyw/deurywiol. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch y Llinell Ffôn Respect ar 0808 802 4040³⁸ neu ewch i www.respectphoneline.org.uk

³⁷ Cymerwyd o ymateb ymgynghoriad Cymorth i Ferched Cymru, gan gyfeirio at 'Adult safeguarding and domestic abuse A guide to support practitioners and managers' p43 www.local.gov.uk/c/document_library/get_file?uuid=5928377b-8eb3-4518-84ac-61ea6e19a026&groupId=10180

³⁸ www.respect.uk.net/work/work-perpetrators-domestic-violence/

Yn ogystal â rhaglenni cymunedol, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn darparu amrywiaeth o raglenni a gynlluniwyd i asesu a newid ymddygiad cyflawnwyr:

- Mae'r Rhaglen Cam-drin Domestig Integredig (IDAP) yn cynnwys pecyn asesu risg rhyngasiantaethol, rheoli troseddwyd rhagweithiol a chyswllt strwythuredig â dioddefwyr yn ogystal â'r sesiynau grŵp penodol a gyflwynir i droseddwyd;
- Mae'r Rhaglen Trais Domestig yn y Gymuned (CDVP) yn rhaglen ymddygiad gwybyddol i ddynion sy'n peri risg ganolig i uchel o niwed. Mae'n cynnwys asesiad risg rhyngasiantaethol/rheoli cyfnewid gwybodaeth; cyswllt â dioddefwyr; rheoli troseddwyd rhagweithiol a gwaith grŵp craidd;
- Mae Rhaglen Cydberthnasau Iach y Gwasanaeth Carchardai yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth troseddwyd o ganlyniadau ymddygiad sy'n cam-drin, ynghyd â'r gallu i adnabod sefyllfaoedd risg uchel a'u rheoli'n effeithiol yn y dyfodol;
- Mae Meithrin Cydberthnasau Gwell (BBR) yn rhaglen achrededig genedlaethol sydd, drwy waith grŵp, yn anelu at ostwng cyfraddau aildroseddu ymhlith dynion sydd wedi'u collfarnu o gyflawni trais yn erbyn partner.

8 Opsiynau atgyfeirio a chysoni prosesau diogelu sy'n gorgyffwrdd

Mae'r adran hon yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol eu defnyddio pe baent yn dod yn ymwybodol bod person hŷn yn profi camdriniaeth. Mae'n ystyried yn gyntaf ar ba sail y gellir gwneud unrhyw atgyfeiriad (caniatâd y dioddefwr), sut y gellir defnyddio prosesau diogelu presennol yn briodol a'r opsiynau atgyfeirio ychwanegol sydd ar gael y tu allan i'r system statudol y gall pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig gael budd ohonynt.

Ym mhob achos mae'n bwysig parchu ymreolaeth y cleient a chefnogi ei hawl i wneud penderfyniadau yn ei fywyd ei hun. Pa bynnag heriau y gall cleient eu hwynebu, mae'n hanfodol meithrin cydberthnasau cryf â gwasanaethau perthnasol.³⁹

Caniatâd

Pan fydd person hŷn yn datgelu ei fod yn dioddef cam-drin domestig, er mwyn ceisio rhoi gofal a chymorth i'r dioddefwr, efallai y bydd angen rhannu'r wybodaeth â gweithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid cael caniatâd penodol y person hŷn (ar yr amod bod ganddo'r galluedd meddyliol i roi caniatâd) cyn rhannu gwybodaeth. Er mwyn helpu'r broses hon, efallai y bydd gweithiwr proffesiynol am esbonio'r rhesymau dros rannu'r wybodaeth, gan bwysleisio'r bwriad i geisio amddiffyn y dioddefwr drwy roi cymorth. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sensitif.

Os na roddir caniatâd dylid gofyn am gyngor arbenigol er mwyn penderfynu pa wybodaeth, os o gwbl, y dylid cael ei rhannu.

Oherwydd amllder salwch ac anabledd sy'n gysylltiedig ag oedran mae gan lawer o bobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol a gall y diffiniad o Oedolyn sy'n Wynebu Risg o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016 fod yn gymwys iddynt hwy.

Lle y nodir bod rhywun yn "Oedolyn sy'n Wynebu Risg" o dan Ddeddf Gwasanaethau 2014, bydd gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i wneud yr ymholiadau angenrheidiol neu sicrhau y caiff ymholiadau angenrheidiol o'r fath eu gwneud i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau ac, os felly, beth a chan bwy.

Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â pherson sydd, neu a all fod ag anghenion gofal a chymorth, i'r graddau sy'n ymarferol resymol, ganfod ac ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn, a rhaid iddo ystyried pwysigrwydd dechrau gyda'r dybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu lles yr oedolyn.

³⁹ Diwygiwyd o www.safelives.org.uk/practice_blog/its-our-right-be-safe-any-age-how-can-we-make-it-easier-older-victims-get-help

Fodd bynnag, os yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon ar y canlynol:

- a. nad oes gan oedolyn y galluedd i benderfynu a ddylid gwrthod asesiad o anghenion ond bod person awdurdodedig o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ar gael i wneud y penderfyniad ar ei ran: neu,
- b. os nad oes person awdurdodedig o'r fath, y byddai er budd pennaf oedolyn o'r fath; neu
- c. os yw'r Awdurdod Lleol yn amau bod yr oedolyn yn profi, neu'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod;

rhaidd i'r Awdurdod Lleol gynnal asesiad o anghenion.

Ategir y dyletswyddau hyn gan bŵer i wneud cais i'r llysoedd am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Mae'r Gorchymyn yn galluogi swyddog awdurdodedig sydd â'r sgiliau a'r profiad gofynnol i sicrhau mynediad i eiddo er mwyn siarad yn breifat â'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg er mwyn penderfynu a yw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd, a yw'n wynebu risg a pha gamau gweithredu, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

Cyn gwneud Gorchymyn, rhaid i ynad heddwch fod yn fodlon bod achos rhesymol dros amau bod yr oedolyn yn wynebu risg; bod angen Gorchymyn er mwyn cael mynediad i asesu'r risgiau; ac na fydd ymarfer y pŵer mynediad yn golygu y bydd yr oedolyn mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Oedolyn sy'n wynebu risg

Yn ôl Adran 126 o Ddeddf 2014 mae "oedolyn sy'n wynebu risg" yn oedolyn:

- a. sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- b. y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- c. nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswyllo fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid iddo:

- a. gwneud unrhyw ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy, a
- b. penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath.

Mae Adran 128 yn amlinellu'r ddyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg:

1. Os oes gan bartner perthnasol awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg, a'i bod yn ymddangos bod y person hwnnw o fewn ardal yr awdurdod, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol am y ffaith honno.
2. Os yw'n ymddangos bod y person, y mae gan y partner perthnasol sail resymol dros gredu bod y person hwnnw yn oedolyn sy'n wynebu risg, o fewn ardal awdurdod lleol ac eithrio un y mae'n bartner perthnasol iddo, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.
3. Os oes gan Awdurdod Lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal ar unrhyw adeg yn oedolyn sy'n wynebu risg a'i fod yn byw neu'n bwriadu byw yn ardal Awdurdod Lleol arall (neu Awdurdod Lleol yn Lloegr), rhaid iddo hysbysu'r Awdurdod arall hwnnw.

Fel y'i hamlinellir yn adran 162 o Ddeddf 2014, mae partner perthnasol i Awdurdod Lleol yn cynnwys:

- y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu dros ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- unrhyw Awdurdod Lleol arall y mae'r Awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol cydweithredu ag ef o dan yr adran hon;
- yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwy'r 2007 mewn perthynas â Chymru;
- darparwr gwasanaethau prawf y mae'n ofynnol iddo o dan y trefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwy'r 2007 weithredu fel partner perthnasol i'r awdurdod;
- Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;
- ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- Gweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000;
- unrhyw berson, neu berson o unrhyw ddisgrifiad, y bydd rheoliadau yn ei bennu.

Cysoni prosesau diogelu

Pan fydd person hŷn yn 'Oedolyn sy'n Wynebu Risg', dylai pob asiantaeth ddefnyddio'r prosesau diogelu statudol.

Os bydd achos yn cynnwys cam-drin domestig a ddatgelir neu a amheuir, mae'n bwysig bod y broses ddiogelu hefyd yn defnyddio adnoddau arbenigol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a lle y bo'n briodol yn defnyddio fforymau amlasiantaeth ychwanegol a all helpu. Dylai hyn gynnwys cwblhau Rhestr Wirio Adnabod Arwyddion Risg, sy'n ymwneud yn benodol â'r cam-drin domestig ac atgyfeiriad at y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) lle y cyrhaeddir y trothwy.

Cyfarfodydd lleol rheolaidd yw Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARACs) sy'n trafod sut i helpu dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o lofruddiaeth neu niwed difrifol o ganlyniad i gam-drin domestig. Bydd arbenigwr cam-drin domestig, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol plant, gwasanaethau cymdeithasol oedolion, asiantaethau iechyd ac asiantaethau perthnasol eraill yn trafod ac yn rhannu gwybodaeth am bob dioddefwr, ei gamdriniwr ac unrhyw blant perthnasol mewn perthynas â'i risg o lofruddiaeth neu gam-drin pellach. Pan fydd hyn wedi digwydd bydd cadeirydd MARAC (sef arweinydd amddiffyn y cyhoedd yn yr heddlu fel arfer) yn amlinellu pob risg ac yn gofyn i'r asiantaethau gymryd camau i leihau a/neu ddileu'r risg honno. Bydd y camau gweithredu yn ymwneud â'r dioddefwr, y camdriniwr a'r plant, ac fe'u defnyddir i lunio cynllun gweithredu. Mae cynrychiolaeth gweithiwr diogelu oedolion proffesiynol mewn MARAC yn ymateb effeithiol i ddiogelu person hŷn rhag cael ei gam-drin ymhellach.

Gellir cyfeirio at gynlluniau diogelu, a gychwynnir gan wasanaethau cymdeithasol oedolion ac ychwanegu atynt yn ystod y MARAC os nodir bod angen cymryd camau pellach i leihau lefelau risg.⁴⁰

Dylai defnyddio llwybrau diogelu a cham-drin domestig sicrhau bod y person hŷn yn cael yr adnoddau diogelu sy'n briodol i nodweddion y cam-drin. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod rolau a llwybrau yn cael eu trafod ar lefelau strategol a gweithredol er mwyn penderfynu pa achosion fyddai'n elwa mwy o un broses nag un arall, ac ar ba adeg y dylid mabwysiadu dull integredig.⁴¹

Gwnaeth canfyddiadau o'r prosiect peilot Mynediad i Gyfiawnder wella canlyniadau a oedd yn seiliedig ar les a chyfiawnder mewn achosion a drafodwyd yn MARAC yn wahanol i'r dull mwy cyfannol a ganfuwyd gan ymarferwyr Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA), er enghraifft, lle y nodwyd pecyn gofal.⁴² Bydd sefydlu llwybrau wedi'u cysoni yn cynnig yr ymateb mwyaf effeithiol i ddioddefwyr hŷn cam-drin domestig ac yn egluro pethau mewn perthynas â chanllawiau atgyfeirio i ymarferwyr.

Os na chyrhaeddir trothwyon MARAC (dim ond i'r rhai sy'n wynebu risg uchel y maent ar gael) dylid hefyd ystyried atgyfeiriad at wasanaeth cam-drin domestig arbenigol lleol. Dylid cynnwys ymarferydd cam-drin domestig arbenigol lleol mewn unrhyw gyfarfodydd strategaeth Amddiffyn Oedolion, ymchwiliadau a chynadleddau achos er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn cael yr arbenigedd hwn ac y caiff gwasanaethau cam-drin domestig eu nodi a'u cynnwys mewn unrhyw gynlluniau diogelu.⁴³

⁴⁰ I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio proses MARAC gyda phobl hŷn www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/NSP%20Guidance%20Older%20People%20FINAL.pdf

⁴¹ Wydall et al (2015)

⁴² www.gov.wales/statistics-and-research/evaluation-access-to-justice-pilot/?skip=1&lang=cy

⁴³ ibid

Mae gwneud y cysylltiadau rhwng diogelu pobl hŷn a cham-drin domestig yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth gorau y gellir ei gynnig, eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas ac y cânt eu cefnogi i sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt hwy. Yr egwyddorion arweiniol ar gyfer gweithio gyda phobl hŷn y mae angen eu diogelu yw:

- grymuso;
- atal;
- amddiffyn;
- ymatebion cymesur;
- gweithio mewn partneriaeth;
- cymorth arbenigol priodol a hygyrch.

Wrth ddiogelu pobl hŷn, fel ym mhob math o gymorth iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r egwyddor grymuso yn golygu bod canlyniadau wrth wraidd popeth a wneir i gefnogi'r person, a dangosir hyn drwy 'ddull sy'n canolbwyntio ar y person' – beth mae'r person a niweidiwyd am iddo ddigwydd? Mae'r egwyddorion hyn yr un mor ddilys ar gyfer gweithio gyda phobl hŷn sy'n profi trais a cham-drin.

Bydd dod o hyd i iaith gyffredin a diffiniadau ymarferol gwell y gellir eu rhannu ar draws cyd-destunau gwahanol hefyd yn atgyfnerthu cysylltiadau. Efallai na fydd termau fel 'dioddefwr', 'cyflawnwr' a 'goroeswr' yn briodol yng ngwaith diogelu oedolion yn gyffredinol ond yn briodol o'u defnyddio yng nghyd-destun cam-drin domestig a thrais rhywiol.

9 Anghenion cymorth a chynllunio mewn perthynas â thrais a cham-drin

Mae llawer o anghenion cymorth a chynllunio diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig yn debyg yn fras ym mhob grŵp oedran – er enghraifft, yr angen i sicrhau cymorth ariannol a chael gafael ar wasanaethau priodol i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, mae problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol neu gamddefnydd o sylweddau yn aml yn fwy difrifol mewn menywod hŷn.⁴⁴ Mae pobl hŷn hefyd yn llai tebygol o roi gwybod eu bod yn cael eu cam-drin ac mae eu hanghenion gwasanaeth yn tueddu i fod yn fwy cyffredinol, gyda detholiad mawr o wasanaethau cymorth gan gynnwys cwnsela hirdymor, help gyda phroblemau alcohol neu gyffuriau a chymorth ariannol – efallai nad yw llawer o fenywod hŷn wedi gweithio, neu efallai nad ydynt wedi rheoli arian o'r blaen.⁴⁵

Opsionau cyfiawnder troseddol

Mewn llawer o achosion, mae'r cam-drin a gyflawnir gan y cyflawnwr/cyflawnwyr yn droseddol. Os bydd trosedd wedi cael ei chyflawni neu os amheuir bod trosedd wedi cael ei chyflawni, mae gan yr heddlu ddyletswydd i ymchwilio iddi. Mae gan yr heddlu bolisi o gymryd 'camau gweithredu cadarnhaol' mewn achosion o gam-drin domestig a gall y cyflawnwr honedig gael ei arestio a'i erlyn os oes digon o dystiolaeth.⁴⁶

Rhoddir gwybod am droseddau ac ymdrinnir â hwy drwy'r system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys nifer o asiantaethau allweddol: yr heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron; y llysoedd (llysoedd ynadon a Llys y Goron); a'r gwasanaeth prawf. Yn dibynnu ar gasgliadau'r System Cyfiawnder Troseddol, gall nifer o opsiynau amddiffynnol fod ar gael i'r person hŷn, gan gynnwys gorchmynion atal a gorchmynion amddiffyn.

Opsionau cyfiawnder sifil

Gall rhwymedïau cyfiawnder sifil, fel gwaharddeb, gorchymyn dim ymyrryd neu orchymyn atal, gael eu hystyried hefyd lle y bônt yn briodol a lle y teimlir y byddai hyn yn helpu i amddiffyn y rhai a allai gael eu cam-drin.

Gwasanaethau arbenigol

Mae gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol lleol ar gael ledled Cymru a gallant gynnig amrywiaeth o wasanaethau i ddarparu cymorth a chynghor parhaus. Caiff y rhain eu hystyried ymhellach yn yr adran hon.

⁴⁴ Bows H (2015) Domestic violence "grown old". The unseen victims of prolonged abuse. www.theconversation.com/domestic-violence-grown-old-the-unseen-victims-of-prolonged-abuse-43014

⁴⁵ Ibid

⁴⁶ www.library.college.police.uk/docs/npia/Domestic_Abuse_2008.pdf

Gellir cael gafael ar wasanaethau yn uniongyrchol neu drwy linell gymorth Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru.

Mewn achosion sy'n cynnwys trais rhywiol, gellir gofyn i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) neu wasanaeth trais rhywiol am gyngor a chymorth annibynnol, cyfrinachol.

Lle y tybir bod person hŷn yn wynebu risg uchel, dylid ei atgyfeirio at MARAC ar gyfer ymateb amlasiantaethol.

Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig

Prif ddiben Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) yw mynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o niwed gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu er mwyn sicrhau bod y dioddefwyr a'u plant yn ddiogel.

Mae IDVAs sy'n gwasanaethu fel prif bwynt cyswllt dioddefwr, yn aml yn gweithio gyda'u cleientiaid o'r adeg y mae'r argyfwng yn dechrau i asesu lefel y risg, trafod yr holl opsiynau addas sydd ar gael a datblygu cynlluniau diogelwch.

Maent yn rhagweithiol wrth weithredu'r cynlluniau, sy'n mynd i'r afael â diogelwch uniongyrchol, gan gynnwys camau ymarferol i amddiffyn y cleient a'r plant, yn ogystal ag atebion tymor hwy. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys camau gweithredu gan y MARAC yn ogystal â sancsiynau a rhwymedïau sydd ar gael drwy'r llysoedd troseddol a sifil, opsiynau tai a gwasanaethau sydd ar gael drwy sefydliadau eraill.

Mae IDVAs yn gweithio gyda hwy yn y tymor byr i'r tymor canolig er mwyn helpu unigolion i sicrhau eu diogelwch hirdymor. Maent yn cael hyfforddiant achrededig arbenigol ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Gan eu bod yn gweithio gyda'r achosion risg uchaf, mae IDVAs yn fwyaf effeithiol fel rhan o wasanaeth IDVA ac o fewn fframwaith amlasiantaethol.

Rôl IDVA mewn lleoliad amlasiantaeth yw sicrhau bod safbwynt a diogelwch y cleient wrth wraidd y trafodion. Mae astudiaethau wedi dangos, pan fydd cleientiaid risg uchel mewn cysylltiad ag IDVA, fod gwelliannau clir a mesuradwy o ran diogelwch, gan gynnwys lleihad yn nifrifoldeb a graddfa'r cam-drin a bod yr achosion mynych o gam-drin yn lleihau neu hyd yn oed yn dod i ben.⁴⁷

Lloches

Mae llochesau yn darparu llety diogel, ymatebion o ran y rhywiau, i fenywod, dynion a phlant sy'n dianc rhag cam-drin domestig. Mae'r llety naill ai mewn amgylchedd a rennir (cyfleustodau a rennir gydag ystafelloedd personol), mewn llety hunangynhwysol yn yr un adeilad neu "unedau gwasgaredig" mewn llety penodedig ar wahân. Mae amrywiaeth eang o opsiynau lloches ar gael ledled Cymru a'r DU.

⁴⁷ www.safelives.org.uk

Tai dros dro â chymorth

Yn ogystal â'r uchod, mae llawer o ddarparwyr cymorth ledled Cymru hefyd yn darparu tai dros dro â chymorth. Unwaith eto, mae'r llety yn hollol hunangynhwysol mewn fflatiau neu dai, a gosodir y llety fel arfer ar Denantiaeth Fyrddaliadol Sicr o chwe mis. Gall y llety fod mewn grŵp gyda'i gilydd mewn clwstwr bach neu ar wasgar o fewn y gymuned. Fel rhan o'r ddarpariaeth byddai'r tenant hefyd yn cael pecyn o gymorth i ddiwallu ei anghenion.

Cymorth yn y gymuned – allgymorth/cymorth fel y bo'r angen

Cynigir gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd angen cymorth mewn perthynas â thai ac sydd am aros yn eu cartref eu hunain. Gellir cynnig y cymorth p'un a ydynt mewn perthynas â'i camdriniwr o hyd ai peidio. Rhoddir y cymorth naill ai yn eu cartrefi, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, neu mewn lle mwy cyhoeddus yn y gymuned. Trefnir cymorth fel y bo'r angen i ddiwallu anghenion lleol a gall amrywio ledled Cymru.

Mae Allgymorth ar gael mewn rhai ardaloedd yng Nghymru i unrhyw un sydd wedi profi cam-drin domestig. Mae Allgymorth yn debyg i Gymorth Fel y Bo'r Angen a gellir darparu'r cymorth yng nghartrefi defnyddwyr gwasanaeth, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, neu mewn lle mwy cyhoeddus yn y gymuned. Mae gweithwyr allgymorth yn darparu cymorth emosïynol a gwybodaeth ymarferol i oedolion sy'n profi cam-drin domestig.

Gwasanaethau siop un stop cam-drin domestig

Bydd Siop Un Stop, a leolir fel arfer yng nghanol trefi ac felly sy'n aml yn hygyrch i bobl hŷn sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn cynnwys nifer o asiantaethau partner ac felly gall y rhain ddarparu ystod eang o wybodaeth, cyngor a chanllawiau i unrhyw un sy'n profi cam-drin domestig. Yn aml bydd ganddynt fynediad at nifer o wasanaethau a ddarperir o'r Siop Un Stop fel cyngor cyfreithiol, cwnsela ac amrywiaeth o grwpiau cymorth.

Llety

Gall llety a hygyrchedd ffisegol fod yn rhwystrau sylweddol sy'n atal pobl hŷn rhag gofyn am help. Mae ymchwil yn dangos bod llawer o bobl hŷn yn credu na allent gael llety a fyddai'n diwallu eu hanghenion pe baent yn gadael cydberthynas dreisgar. Fodd bynnag, mae gan rai ardaloedd yng Nghymru gyfleusterau i'r rhai sy'n anabl a dylai gweithwyr proffesiynol sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael.

Gellir darparu cymorth er mwyn helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, naill ai gyda'r cyflawnwr yn parhau i fyw yno neu hebdo. Ceir gwasanaethau a all wella diogelwch eiddo a gellir darparu cymorth fel y bo'r angen sy'n ymwneud â thai yn y cartref. Mae rhaglenni cyflawnwyr ar gael hefyd er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r cam-drin. Bydd Deddf

Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn gwella'r camau y gall landlord eu cymryd i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig a'u helpu i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Y gydberthynas gofal

Os mai'r un sy'n cael ei gam-drin yw prif ofalwr y cyflawnwr hefyd, bydd yn bwysig ystyried sut y caiff anghenion gofal pob un eu diwallu. Mae hefyd yn debygol y bydd angen sicrhau'r dioddefwr y gellir diwallu anghenion gofal y cyflawnwr mewn ffordd amgen ac y gellir rheoli unrhyw newid yn dda.

Efallai y bydd angen gwybodaeth ar y cyflawnwr am wasanaethau gofal a chymorth ac efallai hefyd y bydd angen ymateb diogelu yn unol â gweithdrefnau amlasiantaethol. Gall y wybodaeth a'r gwasanaethau a gynigir gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol neu raglenni cyflawnwyr.

Fel gyda chyflawnwyr eraill, dim ond arbenigwyr ym maes cam-drin domestig ddylai ymdrechu i wneud gwaith ymddygiadol.



Astudiaeth achos: mynd i'r afael ag anghenion person hŷn

Mae Elsie (65 oed) wedi'i chofrestru'n ddall, ac mae ganddi amrywiaeth o broblemau iechyd. Gadawodd ei gŵr a chychwyn camau ysgaru yn sgil cam-drin emosiynol. Roedd yna broblemau ariannol sydd wedi'i gadael mewn dyled; mae gan ei gŵr hanes o drais.

Gadawodd Elsie'r cartref teuluol a symud i mewn i loches menywod ond nid oedd yn diwallu ei hanghenion. Yna cafodd fyngalo un ystafell wely ar stad tai leol yn agos iawn i'r man lle'r oedd ei gŵr yn byw. Bob tro y byddai'n mynd allan byddai'n ofni ei fod gerllaw, yn ei gwyllo. Roedd angen i Elsie gael byngalo y tu allan i'r ardal, ond roeddent yn brin.

Yn dilyn yr ysgariad mae teulu Elsie wedi troi yn ei herbyn. Nid yw'n gweld ei hwyres mwyach, sydd wedi cael effaith andwyol arni. I lawer o bobl hŷn, gall peidio â gweld teulu a ffrindiau fod yn beth cyffredin mewn bywyd, ond mae'r fath ynyswch yn aml yn arwain at iselder a methu â chael help, sydd wedyn yn gallu arwain at gael effaith andwyol ddifrifol ar iechyd a lles y person hŷn.

Cafodd Elsie gymorth gan weithiwr cam-drin domestig arbenigol a gynhaliodd asesiad risg a llunio cynllun diogelwch. Nid ystyriwyd bod Elsie yn risg uchel ac felly nid oedd yn bodloni trothwy ymyrraeth MARAC. Fodd bynnag, dechreuodd y gweithiwr wneud gwaith gyda'r tîm digartrefedd lleol er mwyn rhoi blaenoriaeth i gais Elsie am dŷ a diwallu ei hanghenion yn hynny o beth.

Roedd ymdrechion i ddatrys sefyllfa tŷ Elsie yn gymhleth, a chymerodd gryn dipyn o amser. Cafodd gynnig llety amhriodol nad oedd yn ystyried ei hanabledd, y ffaith bod ganddi gi tywys a bod angen iddi fyw mewn ardal wahanol i'w gŵr treisgar. Dechreuodd Elsie deimlo'n isel wrth i'r sefyllfa hon barhau heb ei datrys a chafodd feddyginiaeth gan ei meddyg teulu.

Mewn achos o'r fath dylai anghenion Elsie hefyd fod wedi cael eu hystyried ochr yn ochr â'r risgiau a wynebwyd ganddi a dylai ei gofynion gofal a chymorth ychwanegol fod wedi cael blaenoriaeth. Mewn achos o'r fath gallai'r llwybr gofal diogelu fod wedi cynnig cymorth mwy effeithiol i Elsie, oherwydd byddai wedi cyflwyno gweithwyr proffesiynol medrus, perthnasol a allai fod wedi diwallu'r anghenion hynny fel rhan o ddull gweithio mewn partneriaeth.

10 Cyffredinrwydd

Fel gyda phob math o gam-drin domestig, ni chaiff pob achos o gam-drin pobl hŷn ei gofnodi, a hynny i raddau helaeth. Mae astudiaethau blaenorol sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig yn aml wedi anghofio cynnwys profiadau pobl hŷn.⁴⁸ Nid yw 80% o oedolion hŷn yn weladwy i wasanaethau o gwbl ac mae arolygon presennol yn amrywio o ran eu diffiniadau, methodolegau a dulliau sampl.⁴⁹ At hynny, nid yw Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr wedi cynnwys pobl 60 oed a throsodd yn ei arolwg hunanadrodd, cyn hyn. Am y rhesymau hyn nid oes modd darparu data dibynadwy ar gyffredinrwydd na rhywedd.

Fodd bynnag, mae'n dod yn amlwg, fel y'i dangosir isod, fod cam-drin domestig ymhlith pobl hŷn yn broblem sylweddol na chaiff ei chydnabod ddigon.⁵⁰

Mae ymchwil yn awgrymu y gall profiadau pobl hŷn o gam-drin domestig fod yn wahanol i brofiadau pobl iau ac nad yw'r gwahaniaethau hyn wedi cael eu cydnabod yn ddigonol ac na roddwyd cyfrif digonol amdanynt ychwaith ym meysydd datblygu polisi a darparu gwasanaethau.^{51 52}

Mae cam-drin domestig yn broblem gymdeithasol ddifrifol a sylweddol. Mae'n effeithio ar 11% o fenywod a 5% o ddynion yng Nghymru.⁵³ Mae cam-drin domestig yn fater o bwys i bobl hŷn ac, yn yr un modd â dioddefwyr trais a chamdriniaeth eraill, gall ffactorau eraill sy'n gwneud pobl yn agored i niwed ac anghenion cymhleth eraill fel salwch meddwl ac anabledd gymhlethu'r profiad hwn.

Yn yr astudiaeth gynrychioliadol gyntaf o'i math, canfu arolwg cyffredinrwydd cenedlaethol o bobl 66 oed neu hŷn a gyhoeddwyd yn 2007, fod 2.6% o'r bobl a arolygwyd wedi nodi eu bod wedi cael eu cam-drin gan aelod o'r teulu, ffrind agos neu weithiwr gofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Esgeulustod oedd y ffurf fwyaf cyffredin ar gam-drin, wedyn cam-drin ariannol, ac roedd menywod yn fwy tebygol o roi gwybod am brofiad o gam-drin neu esgeulustod.⁵⁴

Yn ôl yr un adroddiad cyfradd yr achosion o gam-drin pobl hŷn yng Nghymru y rhoddir gwybod amdanynt yw 3.1%. Gan ddefnyddio amcangyfrifon o boblogaeth Cyfrifiad 2013, mae hyn yn cyfateb i tua 26,000 o bobl hŷn gyda galluedd meddyliol yng Nghymru sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso mewn rhyw ffordd.

⁴⁸ Zerk, R. (2015) 'Barriers to disclosure in later life', papur a gyflwynwyd yn y XXXVIII Cynghrair Ryngwladol ar y Gyfraith ac Iechyd Meddwl, Ffina, 15fed Gorffennaf 2015.

⁴⁹ Safelives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse.

⁵⁰ User guide to crime statistics for England and Wales (Oct 2015) www.ons.gov.uk/ons/guide.../crime.../user-guide-to-crime-statistics.pdf

⁵¹ Blood, I. (2004) Older women and domestic violence, London: Help the aged.

⁵² Greenan, L. (2004) Violence against women a literature review commissioned by the national group to address violence against women. Safer Scotland: Scotland.

⁵³ Robinson (2012) Task and Finish report for the Welsh Government on legislation to end violence against women, domestic abuse and sexual violence. Dadgyfunir y ffigurau o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) Arolwg Troseddau Prydain gynt.

⁵⁴ www.assets.comicrelief.com/cr09/docs/elderabuseprev.pdf.

Mapiodd yr astudiaeth "Access to Justice" a gynhaliwyd yn Abertawe lle mae 25% o'r boblogaeth yn bobl hŷn, ddigwyddiadau yn ymwneud â cham-drin pobl hŷn yn seiliedig ar atgyfeiriadau at asiantaethau lleol.⁵⁵ Mae'r astudiaeth yn dangos, fel gyda mathau eraill o gam-drin a thrais, fod dioddefwyr hŷn sy'n cael eu cam-drin yn fwy tebygol o lawer o fod yn fenywod; o blith y 131 o ddiodesfwyr a nodwyd, roedd 95 yn fenywod a 36 yn ddynion. Roedd gan bron draean o'r diodesfwyr anabled.⁵⁶

Ystyriodd adroddiad arall ddata a gasglwyd o ffeiliau'r heddlu ynghylch digwyddiadau'n ymwneud â thrais rhwng partneriaid agos yn cynnwys menywod 60 oed a throsodd. Nid nod yr astudiaeth hon oedd cyflwyno data cyffredinrwydd dibynadwy ar y raddfa yr oedd pobl hŷn yn cael eu cam-drin, ond ystyriodd y croestoriad rhwng y math hwn o gam-drin a ffactorau eraill sy'n gwneud pobl yn agored i niwed, er enghraifft, salwch meddwl a chorfforol, cam-drin alcohol ac ati a chanfu gorgyffwrdd sylweddol rhwng cam-drin pobl hŷn a'r materion hyn.⁵⁷

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n bodoli yn awgrymu proffil rhywedd defnyddwyr ychydig yn wahanol i'r hyn a wyddys yn achos pobl iau, gyda mwy o ddynion dros 61 oed yn datgelu eu bod wedi'u cam-drin. Er nad yw o sampl gynrychioliadol, mae data Safelives diweddar yn dynodi, er mai menywod yw'r rhan fwyaf o gleientiaid hŷn, fod cyfrannau llawer uwch o ddynion hŷn hefyd yn profi cam-drin (16%) o gymharu â'r rheini dan 60 oed (4%).⁵⁸

Mae angen gwneud rhagor o waith i ehangu'r set ddata a chynnig esboniadau ar gyfer y thema hon sy'n dod i'r amlwg. Mae'r sawl sy'n gweithio yn y maes yn awgrymu y gall fod oherwydd mwy o wylidwriaeth yn sgil meddyginiaethu pobl yn hwyrach mewn bywyd neu newid posibl mewn dymeg pŵer o fewn cydberthnasau wrth i ddynion hŷn gael eu hystyried yn llai pwerus.

Mae pobl hŷn â dementia yn fwy tebygol o gael eu cam-drin na phobl hŷn nad yw'r cyflwr hwn arnynt.⁵⁹ Mae'r tebygolrwydd mor sylweddol fel y dylid ystyried hyn yn ffactor risg sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd o gam-drin (gweler yr adran ar nodi risgiau ar dudalen 25).

⁵⁵ Clarke et al (2012) cyfeirnodwyd yn Berry V (2014) (Adeiladu Ymatebion Effeithiol: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru).

⁵⁶ (Walby and Allen, 2004; Hester, 2013).

⁵⁷ (Penhale a Goreham, 2013) cyfeirnodwyd yn Berry V (2014) (Adeiladu Ymatebion Effeithiol: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru).

⁵⁸ Safelives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse.

⁵⁹ Downes, C et al (2013) Abuse of Older People with Dementia: A review. NCPop, Coleg Prifysgol Dilyn.

Mae data ar Adolygu Dynladdiadau Trais Domestig yn dangos bod nifer gynyddol o bobl hŷn (60+ oed) yn ddiodefwr dynladdiadau domestig. Yn 2014/15 cafwyd 22 o ddiodefwr benywaidd a 6 o ddiodefwr gwrywaidd yng Nghymru a Lloegr 60+ oed (roedd 18 o'r 28 dros 70 oed), sef 23.7% o holl achosion Adolygu Dynladdiadau Trais Domestig (o gymharu â 25 i gyd yn 2013/2014 ac 16 yn 2011/2012).⁶⁰

Ymhlith pobl hŷn, gall cam-drin hefyd gynnwys plentyn sy'n oedolyn yn cam-drin ei rieni, rhieni-yng-nghyfraith, partneriaid agos neu gyn-bartneriaid, ac wyrion ac wyresau. Mewn astudiaeth yn yr Unol Daleithiau gan Smith yn 2013 a wnaeth gynnwys sampl o N=13,220, cafodd tri o bob deg diodefwr 65 oed neu hŷn eu cam-drin gan eu plentyn neu eu hwyr/wyres eu hunain. Dangosodd astudiaeth lai, ansoddol (N=131) yng Nghymru⁶¹ fod meibion a merched a oedd yn oedolion yn targedu eu rhiant/rhieni yn fwriadol a dogfennwyd bod 21% o'r sampl yn cael eu cam-drin mewn mwy nag un ffordd.

⁶⁰ Ffynhonnell: Mynegai Dynladdiadau, y Swyddfa Gartref.

⁶¹ Clarke, A., Williams, J, Wydall, S. (2016) 'Access to justice for victims-survivors of elder abuse' *Social Policy and Society Cambridge Journal* (available in early view) pp1-14.

11 Deddfwriaeth berthnasol

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r meysydd sydd fwyaf perthnasol i weithio gyda phobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig. Nid yw'n gynhwysfawr o bell ffordd ond mae'n cyfeirio at nifer o feysydd deddfwriaethol Cymru a'r DU gyfan.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf")

Derbyniodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ddeddfwriaeth bwysig, sy'n torri tir newydd fel y gyfraith gyntaf o'i bath yn y DU.

Prif ddiben y Ddeddf yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriedir iddi roi ffocws strategol ar y materion hyn a sicrhau y rhoddir ystyriaeth gyson i ddulliau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG (yr awdurdodau perthnasol) baratoi a chyhoeddi strategaethau yn nodi'r amcanion a fydd, ym marn yr awdurdodau perthnasol, os y'u cyflawnir, yn cyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf; nodi'r camau gweithredu y mae'r awdurdodau perthnasol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion penodedig a'r amser y bydd hyn yn ei gymryd.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014")

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno nifer o gamau diogelu allweddol i oedolion drwy gyflwyno dyletswydd newydd i hysbysu'r awdurdod lleol os amheuir bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae Deddf 2014 yn cyflwyno diffiniad o "oedolyn sy'n wynebu risg" a hefyd yn cyflwyno dyletswydd newydd i'r Awdurdod Lleol wneud ymholiadau, neu beri i ymholiadau gael eu gwneud, er mwyn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau i ddiogelu pobl sy'n wynebu risg.

Ategir y ddyletswydd hon gan bŵer i wneud cais i'r llysoedd am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ("y Gorchymyn"). Bydd y Gorchymyn yn galluogi swyddog awdurdodedig sydd â'r sgiliau a'r profiad gofynnol i sicrhau mynediad i eiddo er mwyn siarad yn breifat â'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg er mwyn penderfynu a yw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd, a yw'n wynebu risg a pha gamau gweithredu, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

Cyn gwneud Gorchymyn, rhaid i ynad heddwch fod yn fodlon bod achos rhesymol dros amau bod yr oedolyn yn wynebu risg; bod angen cael mynediad i asesu'r risg; ac na fydd ymarfer y pŵer mynediad yn golygu y bydd yr oedolyn mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Nod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yw diogelu unigolion nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch gofal a thriniaeth. Mae'n gymwys i unigolion 16 oed a throsodd ac mae'n cynnwys amrywiaeth o gamau diogelu. Pan na fydd y dioddefwr yn meddu ar y galluedd meddyliol ychwaith gellir defnyddio Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i gefnogi pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cymhwyso pum egwyddor:

- Dechreuwch o'r dybiaeth fod rhywun yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun, a'i fod yn meddu ar y galluedd i wneud y penderfyniad penodol dan sylw;
- Sicrhewch y gallwch ddangos eich bod wedi gwneud pob ymdrech i annog a chefnogi'r person i wneud y penderfyniad ei hun;
- Nid yw gwneud penderfyniad y credwch sy'n annoeth neu'n rhyfedd o reidrwydd yn golygu nad yw'r person yn meddu ar y galluedd i wneud y penderfyniad dan sylw;
- Rhaid i unrhyw beth a wneir i berson nad yw'n meddu ar y galluedd i wneud penderfyniadau neu unrhyw beth a wneir ar ran y person hwnnw, gael ei wneud er budd pennaf y person hwnnw;
- Os ydych yn gweithredu ar ran person nad yw'n meddu ar alluedd meddyliol, dylech bwysu a mesur yr ymyriad er mwyn sicrhau eich bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n ymyrryd cyn lleied â phosibl â hawliau a rhyddid y person.

Os nad yw person hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn meddu ar y galluedd i wneud penderfyniadau am ei ddiogelwch yna gellir gwneud "penderfyniadau er budd pennaf" ar eu rhan ynghylch sut i'w diogelu rhag y risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Rhaid i benderfyniad er budd pennaf ystyried barn hysbys y person sy'n wynebu risg a rhaid i unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur â lefel y risg.

Defnyddir asesiad o alluedd meddyliol a dylai rhywun sydd â'r profiad perthnasol i wneud yr asesiad hwnnw ei gynnal.

Mae gan yr Awdurdod Lleol y pŵer i apelio at Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) i'w helpu i wneud penderfyniadau am sefyllfaoedd lle mae rhywun nad yw'n meddu ar alluedd meddyliol yn wynebu risg o gael ei gam-drin. Gallai diffyg galluedd fodoli oherwydd "nam ar y meddwl" fel:

- strôc neu anaf i'r ymennydd;
- problem iechyd meddwl;
- dementia;

- anabledd dysgu;
- bod yn ddryslyd neu'n gysglyd neu fynd yn anymwybodol oherwydd salwch neu'r driniaeth ar ei gyfer;
- camddefnyddio sylweddau.

Mae gweithdrefnau Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed yn debygol o gael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd lle nad oes gan Oedolyn sy'n Wynebu Risg y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am ei ddiogelwch. Dylai'r IMCA gynrychioli budd pennaf y person mewn cyfarfodydd perthnasol:

- Rhaid cymryd yn ganiataol bod rhywun yn meddu ar alluedd meddyliol oni chadarnheir nad yw'n meddu ar y galluedd hwnnw;
- Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oni fydd pob cam ymarferol i'w helpu i wneud hynny wedi cael ei gymryd heb lwyddiant;
- Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad yn syml am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth;
- Rhaid i unrhyw weithred neu benderfyniad a wneir, i berson nad yw'n meddu ar y galluedd meddyliol neu ar ran person o'r fath gael ei wneud er budd pennaf y person hwnnw.

Cyn i'r weithred gael ei chyflawni neu'r penderfyniad gael ei wneud, rhaid ystyried a yw diben cyflawni hyn yr un mor effeithiol mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar hawliau a rhyddid gweithredu person."

Y Ddeddf Troseddau Difrifol 2015

Prif amcan y Ddeddf Troseddau Difrifol yw sicrhau bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn meddu ar bwerau cyfreithiol effeithiol i ddelio â'r bygythiad o droseddau difrifol a chyfundrefnol.

Mae'r Ddeddf Troseddau Difrifol yn diwygio deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag elw troseddau, seibrdroseddau, gorchmynion atal troseddau difrifol, gwaharddebau gangiau, creulondeb plant, troseddau rhywiol yn erbyn plant, anffurfio organau cenhedlu merched, a diogelwch carchardai, comisiynu troseddau terfysgol penodol dramor a rheoleiddio pwerau ymchwilio.

Mae Adran 76 o'r Ddeddf Troseddau Difrifol yn cyflwyno trosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn cydberthynas agos neu deuluol:

1. Mae person (A) yn cyflawni trosedd os:
 - a. Yw A yn ymddwyn tuag at berson arall (B) mewn modd sy'n rheoli neu'n gorfodi, a hynny dro ar ôl tro neu'n barhaus,
 - b. ar adeg yr ymddygiad, mae cysylltiad personol rhwng A a B,
 - c. mae'r ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B, a
 - d. Mae A yn gwybod neu fe ddylai wybod y bydd yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B.
2. Mae "cysylltiad personol" rhwng A a B os:
 - a. Yw A mewn cydberthynas bersonol agos gyda B, neu
 - b. Mae A a B yn byw gyda'i gilydd a:
 - i. maent yn aelodau o'r un teulu, neu
 - ii. maent wedi bod mewn cydberthynas agos gyda'i gilydd yn y gorffennol.

12 Rhestr termau a diffiniadau

Cam-drin domestig

Rhydd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ddiffiniadau clir o dan adran 24 (Dehongli) ar gyfer cam-drin domestig. Yn syml, mae cam-drin domestig yn cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol lle mae "cysylltiad" neu y bu "cysylltiad" rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr. I gael gwybodaeth fanylach cyfeiriwch yn uniongyrchol at y diffiniad yn y Ddeddf a'r rhai a nodir isod.

Ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi

Diffinnir ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol yn Neddf Troseddau Difrifol 2015. Yn ôl y Ddeddf mae ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn cynnwys ymddygiad ailadroddus sy'n rheoli neu'n gorfodi, a gaiff effaith ddifrifol ar y dioddefwr.

Trais rhywiol

Gall trais rhywiol gael ei gyflawni y tu mewn neu'r tu allan i gydberthynas sydd eisoes yn bodoli neu gan gydnabod o fewn y gydberthynas honno neu'r tu allan iddi ac mae'n cynnwys unrhyw weithred neu weithgaredd rhywiol digroeso. Mae sawl math gwahanol o drais rhywiol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol: treisio, ymosodiad rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys yn hanesyddol), aflonyddu rhywiol, masnachu pobl a phlant a chamfanteisio'n rhywiol ar bobl a phlant.

At ddibenion y ddogfen hon, ystyrir trais rhywiol yn bennaf yng nghydestun cam-drin domestig.

Cam-drin (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015): Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

Oedolyn sy'n wynebu risg: Mae adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio 'oedolyn sy'n wynebu risg' fel oedolyn:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- nac yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswyllo fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid iddo:

- a. gwneud unrhyw ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy, a
- b. penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath.

Trais ar sail Rhywedd:

- a. trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- b. anffurfio organau cenhedlu benywod;
- c. gorfodi person (p'un ai drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (p'un ai a yw'n ei rwymo'n gyfreithiol ai peidio).

Aflonyddu: Math o ymddygiad gan berson lle mae'n gwybod neu lle dylai wybod ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu'r person arall; ac at ddiben y diffiniad hwn:

- a. dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu neu'n golygu hynny os byddai person rhesymol oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn meddwl bod y math o ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu person arall neu'n golygu hynny;
- b. mae "ymddygiad" yn cynnwys iaith lafar.

Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA): Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddiodefwr sy'n wynebu risg uchel o gam-drin domestig.

Awdurdod Lleol: Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

MARAC: Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

Cyflawnwr: naill ai unigolion a gollfarnwyd neu nas collfarnwyd sy'n defnyddio trais ac yn cam-drin eu partneriaid, eu cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu (yn unol â'r diffiniad o gam-drin domestig).

Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA): Mae POVA yn bartneriaeth rhwng Iechyd, yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, y Trydydd Sector, Darparwyr Gofal Annibynnol, Rheoleiddwyr, a phobl agored i niwed lle ymchwilir i achosion o gam-drin a amheuir, ac ymdrinnir â nhw os oes angen.

Camfanteisio rhywiol (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015):

rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson:

- a. sy'n golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (c. 42), o ran ei heffaith yng Nghymru a Lloegr, neu
- b. a fyddai'n golygu cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

Trais Rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol..

Trais yn erbyn menywod: Y profiad o drais ar sail rhywedd, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf) gan fenywod.